

ECO'R WYDDFA

Rhif 34

CHWEFRO R 1979

Pris 12c

AR EU FFORDD I BATAGONIA


AR CHWEFRO R 8 bydd criw o ddringwyr a dynion teledu'r BBC yn cychwyn ar daith i Batagonia yn Ne America. Byddant yn hedfan i Buenos Aires, prifddinas Ariannin ac yna i Esquel wrth droed mynyddoedd yr Andes. Mae pwrpas deublyg i'r daith, sef, dringo'r Andes a chael cyfarfod trigolion y Wladfa.



Dafydd Vevar a Dewi Butler — dau o'r dringwyr sydd â'u golygon ar yr Andes.

Ymhlith y chwe dringwr, sydd i gyd yn Gymry Cymraeg, mae pedwar yn byw yn y fro, neu yn enedigol oddi yma. Y bechgyn lleol yw Tom E. Thomas, Brynrefail ond sy'n wreiddiol o Nant Peris; Dewi Butler ac Alun Hughes o Lanberis a Dei Tomos, brawd Tom, sy wedi byw am gyfnod yn y Waunfawr ac sy ar hyn o bryd yn gweithio yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn. Bydd y pedwar yn gwmni i'r "hogyn lleol" sydd ar dŷm y BBC — Emlyn Davies o Lanberis. Y ddau ddringwr arall yw Dafydd Vevar a Sam Roberts, sy'n gweithio'n lleol fel Warden Parc Cenedlaethol Eryri. Yr olaf yw arweinydd y daith.

Bydd y BBC yn ffilmio'r bechgyn yn dringo rhai pigau ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces



ac yn ymweld â disgynyddion rhai o'r Cymry a ymfudodd i Batagonia dros ganrif yn ôl. Pobl ydynt sydd yn dal i siarad Cymraeg, a phobl, fel ninnau, sydd yn gwbl ddwy-ieithog ond mai Sbaeneg yw eu hail iaith hwy. Diddorol oedd clywed am y cysylltu a fu yn y paratoadau ar gyfer y daith. Anfonodd Sam Roberts lythyr wedi ei gyfieithu i'r Sbaeneg i Batagonia a chafodd ateb yn ôl yn Gymraeg. Yn ôl y cynhyrchydd o'r BBC, sydd eisoes wedi bod yn yr ardal yn paratoi ar gyfer y ffilmio, mae croeso mawr yn aros y bechgyn.

Ar ôl tair wythnos, bydd y criw teledu yn dychwelyd i Gymru ond bydd y dringwyr yn aros am bum wythnos arall. Yn ystod yr wythnosau cyntaf bydd Dewi Butler wedi cael hyfforddiant yn y dull o drin camera 'cine' ac ef fydd yn ffilmio'r rhan olaf o'r daith.

Yn ystod yr wythnosau olaf caiff y dringwyr ryddid i ddringo pa fynyddoedd a fynnonnt mewn ardal o faint arwynebedd Eryri. Mae'r bechgyn wedi cysylltu â swyddogion y Parc Cenedlaethol ger Esquel ac maent yn gwybod ychydig am rai o'r mynyddoedd, eu huchder a'r math o ddringo — (craig, neu rew neu cira) fydd ei angen. Mae mynyddoedd eraill yno nad ydynt yn gwybod dim amdanynt, hynny yw, nid ydynt wedi eu disgrifio i ddringwyr. Bydd cyfle felly i'r bechgyn fod o gymorth i'r rhai a fydd yn y dyfodol yn dymuno

GALW CYN-DDISGYBLION BRYNREFAIL

Y Garreg Wen,
Rhosmeirch,
Llangefni.

Annwyl Syr,

Llawer o ddiolch o 'dros y dŵr' am y pleser a gaf bob mis wrth ddarllen yr Eco. Wrth ddarllen y llythyrau gan amryw o blant yr ardal sydd erbyn hyn wedi cartrefu cryn bellter o droed yr Wyddfa, tybiais a fyddai'n bosib cyniwa'r diddordeb ymysg cyn-ddisgyblion o hen Ysgol Brynrefail (BGS) i drefnu cyfarfod ar faes yr Eisteddfod yng Nghaer-narfon, dyweder pwnnau lau rhwng 4 a 5 ym Mhabell y Cymdeithasau a'i alw'n 'Atgofion Ditension'.

Gallm estyn gwahoddiad i rai o gyn-athrawon yr hen ysgol i'r cyfarfod. Syniad arall fyddai trefnu i werthu botymau lapel lliwiau coch, gwyrdd, glas a melyn ym mhabell yr Eco ar y Maes, a'r elw i fynd i'r Eco.

Os oes diddordeb gan nifer o'r cyn-ddisgyblion hoffwn glywed ganddynt, rhif fy ffôn yw Llangefni 722312, ac yn arbennig felly oddi wrth 5 neu 6 sy'n byw yn ardal yr Eisteddfod ac a fyddai'n barod i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Pump a fyddai'n trefnu'r cyfan.

Yr eiddoch yn gywir iawn,
Ifan Wyn Williams.

LYTHYR AGORED

CANOLFAN AMGYLCHEDD LLANBERIS A'R CYLCH

Bron i dair blynedd yn ôl bu'r fro yn trafod y pwn uchod ac yn rhifyn 4, Mehefin 1976, rhoddodd Eco'r Wyddfa (y papur cyntaf i wneud felly) fraslun o'r hanes: rhoddwyd lle, chwi gofiwch, i ddwy farn wahanol.

Mae'r fro unwaith eto'n trafod y mater ac mae bob math o sibrydion yn croes-ddweud ei gilydd.

Beth mae prif-swyddog cynllunio Arfon yn ei ddweud? Saif y cynllun gwreiddiol gydag ychydig o fân-newidiadau er mwyn sicrhau bod rhan o'r adeilad yn addas ar gyfer yr amrywiaeth helaethaf o weithgareddau ar gyfer y gymdeithas leol gan gynnwys chwaraeon dan do.

Beth sydd gan y Dr. Bassett o'r Amgueddfa i ddweud? Dywed ef y bydd yn y Ganolfan neuadd ar gyfer 'certain leisure activities'. Ond nid yw rhai gweithgareddau yn enwedig chwaraeon yn gweddu

i adeilad a fydd â lluniau ac eitemau gwerthfawr yn cael eu harddangos; ac ni fydd rheolwyr yr adeilad yn abl i drafod a goruchwyllo chwaraeon. Ond mae'r Amgueddfa yn barod i roi estyniad ar Ganolfan bresennol Llanberis.

Hoffwn ofyn:

- 1) A oes gwir yn y ffaith bod amcan-gost o £500,000 yn 1976 i godi'r Ganolfan Amgylchedd wedi chwyddo i £2,000,000 yn 1979?
- 2) Ydy'r addewid fod pobl y fro am fod ar Bwyllgor Rheoli'r Adeilad yn dal i sefyll?
- 3) A oes gwir yn yr honiad na fydd lle yn yr Adeilad i Ganolfan Chwaraeon?
- 4) A fydd pobl y fro yn cael defnyddio'r lle yn helaeth?
- 5) A ydy'r Pwyllgor Llywio wedi ymgvngori â'r gymdeithas leol ar hyd yr amser yn unol ag addewid Ebrill 1974?
- 6) A oes gwir yn y si bod rhai o ieuenctid Llanberis yn anfodlon?

Yn gywir,
Pat Larsen
(Cyngorydd Sir)

CYDNABYDDIAETH — OS GWELWCH YN DDA



Caernarfon ei hun? Dim ffiars! Beth am bentrefi gweithgar y fro hon? Dengys y graff ar dudalen 11 fod y gweithgareddau codi arian yn dal i ffynnu.

dringo yn y rhan honno o'r Andes.

Dymuna'r bechgyn ddiolch i holl bobl yr ardal sydd wedi cefnogi eu hantur. Cynhaliwyd disco llwyddiannus iawn yn ddiweddar, ac maent yn diolch hefyd i'r siopwyr lleol am eu cyfraniadau tuag at y raffl. Dymunant enwi John Gwyn Williams, arweinydd

Aelwyd Llanberis fel un a gyfranodd yn arbennig. Bu cwmni lleol, sef Clog (cwmni sy'n gwneud offer dringo o bob math) yn neilltuol o hael tuag atynt.

Pob dymuniad da i'r bechgyn. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi peth o hanes y daith yng ngholofnau'r Eco.

ECO'R WYDDFA

RHIF 34 CHWFROR 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
ffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisrwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Selwyn
Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 3577)

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST :
Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waun-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick,
1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.

DEINIOLLEN: Meirion Jones, Minafon,
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

Annwyl Olygydd,

Wrth glywed am farwolaeth
Dilys Cadwaladr yr wythnos
ddiwethaf daeth i'm cof ein
cyfarfyddiad mewn caffi yng
Nghaernarfon flynyddoedd yn ôl.
Yn y sgwrs gofynnodd, a wnawn
dorri ei henw ar graig ym
Mhenllyn, lle y magwyd hi, os
byddwn byw ar ei hôl. Teimlaf yn
euog na allaf.

Yn gywir,

Gwen Roberts (Deiniolen)

OEDD YNA DDWY FARGED?

MARGED UCH IFAN

Diolch i'r Parch. E.A. Owen,
Portland, Cae Mair, Biwmares, sir
Fôn am y manylion canlynol. Un
o Bentre Castell, Llanberis yw Mr.
Owen.

1) Arferai Marged Uch Ifan gario
copr o lan Llyn Nant Peris yn ei
chwch i Ben Llyn, Brynrefail, ac
yna y copr mewn troliau i borth-
ladd Caernarfon.

2) Dymunai Asheton Smith o'r
Faenol gael ei gario yn y cwch a
Marged yn rhwyfo i fyny Llyn
Padarn. Dechreuodd Asheton
Smith wneud hwyl trwy ysgwyd y
cwch o un ochr i'r llall. Gwyllt-
iodd Marged a thaflodd ef ar ei
ben i'r llyn.

Wrth gwrs hanesion
traddodiadol dynt.

3) Y mae gan Mr R.H. Evans,
Derlwyn, Stryd Fawr, Llanberis
lun o'r gwaith copr yng Nglan
Llyn, Nant Peris. Peintiwyd y llun
yn 1746 gan ryw arlunydd.

4) Y mae cofnod o gladdedigaeth
Marged Uch Ifan i'w weld ar
"Registers" Eglwys St. Peris yn
cael ei gadw gan y Parch. Canon
Alun Jones, Rheithor Llanberis yn
Eglwys St. Padarn (TN285).

5) Y mae llyfr "Bob Go" yn
dweud dipyn o hanes Marged Uch
Ifan. Robert Williams 'sgrifennodd
y llyfr ac ennill mewn Eisteddfod
yn Llanberis ar hanes y plwyf.
Cadwai Robert Williams efail wrth
ymyl ysgol Dolbadarn yng
ngwaelod Stryd y Ceunant.

Diolch yn fawr iawn i'r Parch.
E.A. Owen am ei lythyr caredig
a'r manylion.

Mary Lloyd Williams.

MWY AM MARGED

Heb ddim amheuaeth gwraig
Michael Jones, Llwyncoed oedd
Marged Uch Ifan. Ganwyd hi yn
y flwyddyn 1714 a bu farw yn
1805 yn 91 oed. Ganwyd iddynt
dri mab a dwy ferch. Mae'r cof-
nodion a ganlyn ar gofrestr
Eglwys Llanrug wedi ei ysgrif-
ennu yn Saesneg. Mae'r gofrestr
o flaen hyn yn dechrau yn 1674
wedi ei ysgrifennu yn Lladin.

BEDYDDIO

Jane merch Michael Jones, Llwyn-
coed a Marged ei wraig, Gorffen-
naf 25, 1747.

John mab Michael Jones, Llwyn-
coed a Marged ei wraig, Mawrth
1af, 1749.

Ifan mab Michael Jones, Llwyn-
coed a Marged ei wraig, Mawrth
15, 1752.

Owen mab Michael Jones, Llwyn-
coed a Marged ei wraig, Medi 9,
1754

Ellen merch Michael Jones,
Llwyncoed a Marged ei wraig,
Mehefin 9, 1758

CLADDEDIGAETH

Michael Jones, Llwyncoed,
Yoeman, Chwefror 23, 1772

Marged Uch Ifan, Llwyncoed,
Ionawr 29, 1805 yn 91 oed

Eglwyswyr oeddynt. 'Roedd
Michael Jones yn Warden Eglwys
Llanrug o 1765 ymlaen. Mae eu
Llyfr Gweddi Cyffredin pedair
modfedd o drwch a argraffwyd yn
y flwyddyn 1746 yn Gymraeg gan
Joseph Bentham printiwr i Brif-
Ysgol Caer Grawnt ar gael heddiw.

Ymhen llai na blwyddyn ar ôl
colli ei fam fe gollodd Owen ei
wraig a oedd yn fam i chwech o
blant. Fe gwmpodd oddi ar gefn
ei cheffyl yn ymyl tref Caer-
narfon ar Awst 22 1806. Mae'n
bur debyg fod cyfeiriad Marged
Uch Ifan ym Mhenllyn yn gam-
arweiniol heddiw. Yr oedd yn
byw yn yr unig dŷ ar ben y llyn ar
y pryd, ac nid oedd pentref yn lle
mae Brynrefail heddiw. Llwyn-
coed oedd yr unig dŷ hwnnw.

Ymhen ugain mlynedd ar ôl
marw Marged Uch Ifan
adeiladwyd ffordd o ryw fath o
Ben Llyn i Lanberis.

Y ffordd gyntaf i'w gwneud o
Lanrug i Lanberis oedd dros Pen-
bwllch a Chlegir cyn belled â'r

Dafarn Newydd yn 1812, ac yn
1815 cyn belled â Chastell
Llanberis. I ddiweddu ychydig o
hanes yr ardal mae enw canol
Marged wedi newid yn ystod
amser. Margaret Ach Evan of
Llwyncoed ydyw ar y cofrestr
Saesneg.

Annwyl Olygydd,

MARGED UCH IFAN

Wedi darllen hanes Marged Uch
Ifan gan Mary Lloyd Williams yn
y rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa
hoffwn gael sylwadau ar un pwynt

Pam dod â'i gweddillion i
orffwys ym mhlwyf Llanberis a
hithau yn byw ym mhlwyf Llan-
ddeiniolen?

A yw'n bosib mai ym mhlwyf
Llanberis y bu farw? Bu Marged
yn byw mewn bwthyn o'r enw
'Penllyn' yng nghysgod craig ym
mhen gogleddol Llyn Peris; mae'r
murddun i'w weld heddiw ac y
mae yng ngolwg hen eglwys Peris
Sant lle gorwedd llwch Marged.

Mae olion Marged yn prysur
ddiflannu o lannau Llyn Peris;
aeth yr hen bilar lle rhwymai ei
chychod yn ogystal â'r cwt cwch
yn ysglyfaeth i deirw dur yr MBZ.

Ond erys y chwedlau amdani.
Prif ddifyrrwch Marged oedd
magu cŵn, daeargwn a bytheiaid.
Daliai fwy na neb o lwynogod,
gelyn pennaf bugeiliaid y Nant.
Byddai yn rhoi marc ar lechen
wrth ben hen simdde fawr am bob
llwynog a ddaliai. Dywedodd
Griffith Ellis, a fu yn oruchwyliwr
yn Chwarel Dinorwig, iddo gyfri'
190 o farciau, un am bob llwynog
a ddaliodd Marged y flwyddyn
honno.

Yr eiddoch yn gywir,
J.W. Elis (Perisfab)

ATODIAD GOLYGYDD

Mae'n ymddangos fod dwy Farged
wedi byw yn yr ardal.

Diolch i Mrs Mary Lloyd
Williams am ei hymchwil a diolch
i'r cyfeillion am eu hymateb.

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwy**

**MODURDY
MENAI**



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

DIOLCH

Ein diolch diffuant i'r rhai
canlynol am ein cynorthwyo
i gyfarfod costau
cynhyrchu'r Eco.

£5. — Mr a Mrs W. Morris
Jones, Hafod, Rhuddlan,
Clwyd.

£5 — W.E. Williams, 3 East
Avenue, Larchmont, N.Y.,
U.D.A.

£2 — Mr Ifan Wyn Williams,

Llangefni

£3 — Mrs N.M. Mullins,
Eccleshall, Sheffield.

£2 — W.M. Hughes, Rhiwen,
Deiniolen.

£2: Mr a Mrs Harry Roberts,
2 Tai Plastirion, Llanrug.

£1: Mr a Mrs E.J. Owen,
Ainsdale.

£1: Di-enw, Canada

£1: Ronnie a Babs Williams,
Leicester.

Pleidleisiwch Dros Gymru Ar Ddydd Gŵyl Dewi

ERTHYGL GAN BRIAN REES

Ar 1af Mawth, 1979, fe fydd Cymry yn pleidleisio ar y datblygiad pwysicaf ym mywyd gwleidyddol cyfoes Cymru. Bydd pleidlais fawr dros Gymru yn y refferendwm yn golygu y bydd y Cynulliad Cymreig yn cael ei sefydlu fel y cynigwyd gan y Llywodraeth yn Neddf Cymru a derbyniodd sêl bendith y Frenhines.

PAHAM YDYM ANGEN CYNULLIAD?

Fe wna'r Senedd yn San Steffan ddeddfau ar gyfer Prydain Fawr i gyd ac yn Lloegr, caiff y deddfau hyn eu gweithredu gan wahanol adrannau o'r llywodraeth, pob un gyda'i weinidog llywodraeth ei hun. Ond yng Nghymru mae'r rhan fwyaf o'r adrannau hyn bellach wedi'u gwasgu oddi fewn y Swyddfa Gymreig. Golygai hyn bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn awr yn Weinidog Iechyd, Addysg, Amaethyddiaeth, yn ogystal ag yn Weinidog Ffyrdd, Tai a llawer mwy.

I fod yn ymarferol, ni all un person yn unig wneud yr holl swyddi hyn, ac mae llawer o'r penderfyniadau holl-bwysig sy'n rheoli ein bywydau yn cael eu gwneud gan weision sifil yn y Swyddfa Gymreig. Bydd y Cynulliad Cymreig yn cymryd y cyfrifoldeb dros y rhan yma o lywodraeth sydd eisoes mewn

bodolaeth. Golygai hyn y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fwy o amser i roi i'w ddyletswyddau eraill, ac i gynrychioli Cymru yn y Cabinet.

Bydd cannoedd o orchmynion a rheolau sy'n effeithio ein bywydau bob dydd sy'n cael eu derbyn gan y Senedd yn ddiwrthwynebiad ar hyn o bryd yn cael eu trin a'u trafod gan y Cynulliad: apwyntiadau i'r nifer fawr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru megis yr Awdurdod Datblygu, yr Awdurdodau Dŵr a Iechyd ac eraill. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i fod yn aelod llawn o'r Cabinet, ac fe fydd ei swyddogaeth yn cael ei chryfhau gan lais democrataidd y Cynulliad.

Bydd y Cynulliad Cymreig yn gallu mynegi barn ym Mrwsel, ac hefyd yng nghynghorau'r Farchnad Gyffredin.

YM MHA FFORDD FYDD Y CYNULLIAD YN TRIN DIWEITHDRA?

Gwelsom ddiweithdra yng Nghymru yn uwch na 100,000 — am y tro cyntaf ers 40 mlynedd. Mae arnom angen mwy o swyddi, ond mae swyddi yn brin, ac ni fedrwn bellach ddisgwyl cymorth gan rannau eraill o Brydain, sydd yn awr yn dioddef eu problemau diweithdra eu hunain. Fe sefydlodd y Llywodraeth Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bwrdd Datblygu Cymru Wledig er mwyn denu diwydiant newydd i

Gymru, ac i weithredu'r rhain, y mae arnom angen y Cynulliad.

Fe fydd y Cynulliad Cymreig — fel sefydliad cenedlaethol — yn rhoi i'r Awdurdod Datblygu y dimensiwn democrataidd y mae ei angen i gynllunio datblygu economaidd. Drwy greu awyrgylch o hyder a chyfarwyddyd fe fydd y Cynulliad yn llwyfan pwysig i ddenu cynlluniau newydd a swyddi i Gymru.

Mae A.S.'u o'r rhanbarthau Seisnig yn edrych ar y Cynulliad Cymreig gydag eiddgedd, a chytunent y bydd yn rhoi cyfle ardderchog i Gymru yn y frwydr i greu swyddi newydd — ac y maent yn iawn!

Y CYNULLIAD — MWY O FIWROCRATIAETH?

Y ddadl fwyaf boblogaidd ymysg gwrthwynebwyr y Cynulliad yw y golygai mwy o lywodraeth. Ond, fel 'rydym wedi gweld — ni fydd yn creu lefel arall o lywodraeth — mae'r lefel hon o lywodraeth eisoes mewn bodolaeth yn ffurf y gweision sifil a wasanaetha'r Swyddfa Gymreig ac yn y cyrff enwebedig sy'n rheoli Cymru. Fe fydd y Cynulliad yn trosglwyddo'r rheolaeth yn ôl i ni'r Cymry — ac o'r diwedd fe fydd y sefydliadau hyn sy'n gwario £1,000 miliwn o'n harian ni bob blwyddyn yn atebol i Gynulliad etholedig democrataidd.

A FYDD Y GOST YN ORMOD?

Gellir ateb hwn drwy ofyn cwestiwn arall: Beth yw cost democratiaeth? Os rywbeth, fe

fydd y Cynulliad yn llai na'r gost o sefydlu'r maes parcio newydd i A.S.'u Tŷ'r Cyffredin, ac fe fydd y gost o redeg y Cynulliad yn hanner y gost o fandiau pres y Fyddin Brydeinig! Fe fydd y gost yn llai na 1/2c y person yr wythnos.

Un o ddyletswyddau cyntaf y Cynulliad fydd i adolygu llywodraeth leol er mwyn torri i lawr ar wastraff a gwariant di-angen. Meddyliwch faint y gallwn arbed yn y maes hwn!

Er mwyn ein dyfodol ein hunain ym Mhrydain yn ogystal ag yng Nghymru, ni allwn fforddio peidio â manteisio ar y cyfle hwn. Rhaid inni bleidleisio DROS GYMRU ar Ddydd Gŵyl Dewi.

O'R EISTEDDFOD CÂN I'R DYSGWYR

Y mae cyfle i ddysgwyr go gerddorol gael clywed ei gân ei hun ar faes Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon fis Awst nesaf.

Gwahoddir holl ddysgwyr Cymru i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ysgrifennu cân ar gyfer Pabell y Dysgwyr yno. Bwriedir ei thapio a'i chanu yn y Babell ac ar y cyfryngau.

"Gall fod ar alaw draddodiadol neu un wreiddiol ac y mae Cwmni Theatr Cymru wedi cyfrannu gwobr o ddau docyn braint i unrhyw un o berfformiadau'r cwmni mewn unrhyw fan yn ystod y flwyddyn sydd yn dechrau 1 Hydref 1979. Yn ogystal â hynny ac i sicrhau bod y buddugwyr yn derbyn gwybodaeth am y perfformiadau fe roddir aelodaeth am ddim o Gymdeithas Theatr Cymru am yr un cyfnod," meddai Mrs Nona Breese, Drws y Coed, Y Bontnewydd, Ysgrifennydd Pwyllgor y Dysgwyr.

Dylid anfon y caneuon iddi hi erbyn Mai 1, 1979.

Y CYNULLIAD CYMREIG

Bydd y cynulliad

yn rhoi llais i ni bobl Cymru yn dod â'r gweision sifil dan reolaeth aelodau etholedig yn help i greu gwaith a swyddi i'n plant yng Nghymru.

Pwy sy'n erbyn?

Leo Abse, Neil Kinnock, y Toriaid diweledigaeth, y 'National Front' a'u tebyg

Ateb eu dadleuon Costus?

Lol botes maip. Y mae cost sefydlu'r Cynulliad yn llai na'r hyn a wariwyd ar faes parcio newydd Tŷ'r Cyffredin Y mae cost flynyddol ei redeg yn llai nac un geiniog y pen yr wythnos

Mwy o lywodraeth?

Celwydd. Golyga bod y Cyrff Enwebedig (tua 100 ohonynt), fel y Bwrdd Dŵr, yn dod yn atebol i bobl Cymru.

Rhannu Prydain?

Nonsens. Daw â mwy o lais i bobl Cymru a gwneud llywodraeth well ym Mhrydain medd y Prif Weinidog. Fe wna Datganoli Ielhau baich afresymol Tŷ'r Cyffredin medd Edward Heath.

Peidiwch cael eich twyllo gan ffigurau camarweiniol, ofnau, a ffug ffeithiau y gelynion gwrth-Gymreig.

ER MWYN DYFODOL I'N PLANT

Ymunwch gyda

James Callaghan, Cledwyn Hughes, Yr Arglwydd Goronwy Roberts, Tom Ellis, Dafydd Wigley, Geraint Howells, Dafydd Elis Thomas, Emlyn Hooson, Syr Geraint Evans, Harry Secombe, Archesgob Cymru, Barry John, Dai Davies etc.

a phleidleisiwch

"YDWYF"

tros Gymru
ar Fawrth 1af, 1979

Cyhoeddwyd gan ymgyrch Gwynedd tros y Cynulliad

BETHEL

MERCHED Y WAWR — Er gwaethaf y tywydd mawr, cafwyd noson ddiffr yng nghwmni Mrs Awenna Jones, Bontnewydd yn trefnu Dawnsio Gwerin. Gwestai y te oedd Mrs. C. Roberts, Penrhos a Miss K. Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Helen Bebb.

Cynhelir cinio Gŵyl Ddewi yng ngwesty'r Victoria, Llanberis Mawrth 14. Derbynnir yr enwau ynghyd â blaendal o £2 yn y cyfarfod nesaf Chwefror 14.

CYDYMDEIMLO — Mae'r mis wedi bod yn un o golledion trwm i'r pentref gyda nifer o farwolaethau.

Dydd Iau, Ionawr 4 yn 94 oed bu farw Mrs Maggie Jones, 1 Penrhos. Mrs Jones oedd y person hynaf yn y pentref.

Dydd Sul, Ionawr 7 bu farw Mr Caradog Evans, Parciau Rhos, Llanddeiniolen.

Dydd Mercher, Ionawr 10 bu farw Mr William Williams, 31 Bro Rhos.

Dydd Llun, Ionawr 8 yn 67 oed bu farw Mr Hugh Williams, 4 Cremlyn.

Dydd Gwener, Ionawr 19 bu farw Mr John Barlow, 40 Bro Rhos.

Mae'n cydymdeimlad llwyr â'r teuluoedd yn eu profedigaeth. Gobeithio na welir mis mor greulon yn hir eto.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL — Nos Iau, Ionawr 11 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol yng nghapel Saron.

Nos Iau, Ionawr 25 cafwyd noson ddiffr o Godi Cwestiwn yn Ffestri Cysegr. Ar y panel 'roedd Mrs W.R. Williams, y Felinheli, Mrs Williams, Llanddona; Canon Alun Jones, Llanberis a Mr Frank Rhys Jones, Tregarth.

GENEDIGAETHAU — Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Druce Eryri ar enedigaeth mab bychan, Eurig, brawd i Hedd.

LLONGYFARCHIADAU — i Emyr Roberts, Penrhos Villa ar gael ei ben-blwydd yn 21 oed, a Peter Jones, 2 Cremlyn ar gael ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ionawr 4. Dymuniadau gorau hefyd i Dylan Williams, 9 Bro Rhos a fydd yn 21 ar Chwefror 14.

YR URDD — Bu 110 o blant a chyfeillion yr Urdd yn Theatr Gwynedd nos Fercher, Ionawr 3 yn gweld y pantomeim Eli Babi. 'Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw.

GWAELEDD — Drwg iawn gan blant a phobl y pentref oedd clywed am waeledd Mrs Lena Thomas, 9 Cremlyn dynes Lilipop yr ysgol. Mae'n dda gennym ddeall fod Mrs Thomas yn gwella yn araf yn Ysbyty Bryn Seiont.

EISTEDDFOD CAERNARFON — Enillwyd y Clwb 100 am y mis oedd: 1) Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd — £20; 2) Mr Edward Jones, 7 y Dop, Tregarth — £10; 3) Mr Peter Bryfdir Jones, Bwlch y Gwynt — £5; a Mr Seiriol Owen, Crud yr Awel — £5. Erbyn hyn mae'r pwyllgor lleol wedi cyfrannu £1,616 tuag at y nod o £2,250.

GWEU SGWARIAU — Er cystal yr ymateb i'r ymgyrch codi arian drwy weu sgwariau nid oes digon o sgwariau i wneud blanced. Tybed a fyddai pobl y pentref yn fodlon gweu 'chwaneg o sgwariau yn eu cartrefi a'u rhoi i Mrs Mair Price. fel y gellir gwneud planced go nobl.

GYRFA CHWIST — Nos Iau, Chwefror 15 am 7.30 fe gynhelir Gyrfa Chwist yn yr Ysgol, gyda'r elw yn mynd at yr Eisteddfod. Gobeithio y ceir noson lwyddiannus.

CLWB Y RHOS — Nos Wener, Chwefror 16 bydd aelodau Clwb y Rhos a'u gwagedd yn gwledda yng Ngwesty'r Stables, Llanwnda.

Y CARNIFAL — Mae trefniadau'r Carnifal yn mynd ymlaen yn foddhaol iawn. Eisoes penderfynwyd cynnal y Carnifal yn ystod wythnos olaf Mehefin. Dechreuir yr wythnos gyda Chymanfa Ganu ar y nos Sul, a gorffennir gyda Charnifal a Dawns ar y nos Sadwrn. Yn ystod yr wythnos fe geir disgo i'r plant, Noson Lawen, Helfa Drysor, Cystadlaethau pêl-droed, chwaraeon a Beetle Drive.

Bydd y pwyllgor nesaf yn y Neuadd nos Wener, Chwefror 23.

CWM-Y-GLO



PRIODAS — Ar Ragfyr 23, priodwyd Miss Blodwen Williams, merch hynaf Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View, a Mr Ceiriog Davies, mab hynaf Mr a Mrs E. Davies, y Ffiniau, Penycae, Rhosllannerchrugog. Y forwyn oedd Miss Eirian Williams, chwaer y briodferch, a'r gwas oedd Mr John Wyn Roberts.

Gweithia'r priodfab gyda Bwrdd Marchnata Llaeth, Marchwiel, a Blodwen gyda Chyngor Bwrdeisdref Wrecsam Maelor, a byddant yn cartrefu yn Johnstown, ger Wrecsam. Dymunwn bob bendith i'r pâr ifanc. Carai Blodwen a Ceiriog ddiolch yn gynnes i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da.

CANU CAROLAU — Heriodd criw o bobl ifanc erwinder yr hin i fynd i ganu carolau o amgylch y pentref. Gwnaed elw o £16, a chyflwynwyd yr arian i Blas Pen Gwaith.

CLWB IEUENCTID — Bu rhai o aelodau ieuengaf y Clwb yn cymryd rhan mewn gornest bêl-droed 'pump bob ochr' ym Mangor yn ddiweddar. Mwynhawyd y noson yn fawr. Cafwyd gemau da, nes colli 2-0 yn y rownd gyn-derynol.

Y CARNIFAL — Dymuna Pwyllgor y Carnifal gyhoeddi mai o'r 1-7 o Orffennaf y cynhelir y carnifal eleni. Ceir mwyl o fanylion maes o law.

GWERTHFAWROGIAD — Dymuna Mr Gwilym Evans, Terrace, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau, am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd dros y Nadolig, ac yn ystod ei arhosiad yn ysbyty Galt-y-Sil. Diolch hefyd i'r gweinyddesau am eu caredigrwydd drwy'r amser.

Bellach mae Mr Evans wedi symud i Blas Pen Gwaith, lle bydd yn cartrefu dros dro.

YN GWELLA — Balch iawn oeddym o ddeall fod Mrs Olwen Hughes, Alexandra, yn gwella wedi ei gwaeledd diweddar. Ein cofion atoch Mrs Hughes, a llwyr wellhad fo i chwi.

Da gweld amryw eraill sydd wedi bod yn cwyno, yn ôl yn ein plith unwaith eto.

CYDYMDEIMLWN — â'r rhai canlynol yn eu profedigaeth: Miss Elizabeth Davies, Noddfa — colli chwaer.

Mr Ifor Parry, 16 Dolafon, colli chwaer.

MARW DILYS CADWALADR — Gyda thristwch y clywsom ni yn y Cwm am farwolaeth Mrs Scheltinga neu Dilys Cadwaladr, fel y'i hadnabyddid gan bawb. Yn enedigol o'r Ffôr, daeth ei rhieni i gadw siop i Benllyn pan oedd hi'n eneth fach, a bu'n ddisgybl yn ysgol y Cwm, ac wedyn yn hen ysgol Sir Brynrefail. Teimlwn felly fod gennym beth hawl i'w chyfrif yn un ohonom, a lle gellid cael man mwy delfrydol na Phenllyn i ysgogi dychymyg bardd.

Bu'n trigo mewn llawer man yn ystod ei hoes, ond ni cholodd gysylltiad â'r fro, a hoffai ddychwelyd i'w chynffin pan ddeuai'r cyfle. Nid anghofiodd chwaith bobl fel Mrs Catrin Jones, Glan Aber gynt, a fu'n gweithio

gyda'r teulu am flynyddoedd, na'i chyfeillion a'i chymdogion cynnar, pobl y meddyliai y byd ohonynt. Cofiw'n ei balchder pan wahoddwyd hi i lywyddu cyngerdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, er budd cae chwarae Cwm-y-glo.

Caiff ei chofio yng Nghymru fel y ferch gyntaf i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol; ymfalchiwn ninnau yn ei champ, ond mae amryw yn aros a'i cofia yn bennaf fel ffrind a chymeriad diddorol a dirodres.

Bu'r angladd ym mynwent Llanrug ar Ionawr 20, a charem estyn ein cydymdeimlad dyfnaf â'i phriod a'i mab a'r teulu.

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher, Ionawr 17 cyfarfu'r gangen leol yn yr ysgol gynradd, gyda'r llywydd, Mrs Lowri Prys Williams yn y gadair.

Y Parchedig Huw John Hughes oedd y gŵr gwadd, ac er gwaetha'r tywydd gerwin, a'r ffaith fod cymaint yn cwyno, cafwyd cynulliad pur dda.

Rhoddodd Mr Hughes ddarlith wych a difyr ar Ann Griffith yr Emynyddes o Ddolwar Fach, a'i chefnidir teuluol.

Diolchwyd iddo gan y llywydd, ac eiliwyd gan Mrs Margaret Williams, Nant Forgan.

Y gwestwagedd te oedd Mrs Lowri Prys Williams a Mrs Iris Rowlands; hwy hefyd roddodd y wobr y mis.

Trefnwyd i fynd i Gaernarfon y mis nesaf ar wahoddiad y Bwrdd Marchnata Llaeth.

Treulir cyfarfod ar Chwefror 21 i wneud trefniadau ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth, pryd y disgwyllir aelodau o gangen Pontllyfni i'n plith.

GWASANAETHAU'R NADOLIG — Bu gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Sant Gabriel ar y nos Sul o flaen y Nadolig. Plant yr Ysgol Sul, eu hathrawon ac aelodau o'r gynulleidfa oedd y darllenwyr a chanwyd carolau gan blant yr Ysgol Sul. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs J.E. Watkins ac athrawon yr Ysgol Sul. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a'r organydd oedd Judith Orritt. Y Rheithor a weinyddai'r Offeren fore'r Nadolig a daeth cynulleidfa dda at ei gilydd. Yr organydd oedd Miss C. Hughes. Am hanner awr wedi un ar ddeg Nos Calan bu gwasanaeth Gwylnos o dan arweiniad y Rheithor. Yr organydd oedd Miss C. Hughes.

TE PARTI'R PLANT — Cynhaliwyd te parti'r plant yn yr Ysgol Gynradd, ar nos Fercher cynta'r flwyddyn. Yr oedd y trefniadau yn llaw yr athrawon a chynorthwywyd hwy gan famau'r plant. Rhannwyd rhoddion ar ddiwedd y parti a bu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn.

PARTI AELODAU UNDEB Y MAMAU — Aeth aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion i Blas Tan Dinas i fwynhau eu parti Nadolig. Er bod y tywydd yn erwin daeth nifer fawr o aelodau i fwynhau eu hunain.

MARW PRIFARDD — Yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw'r Prifardd Dilys Cadwaladr. Bu yn byw ym Mrynrefail am rai blynyddoedd ac wedi hynny bu yn brifathrawes mewn gwahanol ysgolion yng Ngwynedd. Dilys Cadwaladr oedd prifathrawes olaf Ynys Enlli ac iddi hi y daeth yr anrhydedd o fod y ferch gyntaf i ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth yr anrhydedd hwn i'w rhan yn 1953 yn Eisteddfod y Rhyf. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Llanrug a'r Rheithor a wasanaethai yn yr Eglwys ac ar lan y bedd. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i phriod Mr Leo Scheltinga ac a'i mab.

BETWS GARMON

CYDYMDEIMLIR — â Mrs B. Roberts, y Groeslon, Caernarfon (Arwel gynt) ar farwolaeth sydyn ei gŵr, Mr. R. Roberts; hefyd cydymdeimlir â Mr J. Williams, Bryn Rhyd (brawd).

Collodd Mrs J. Jones, a Miss M. Pritchard, 9 Tref Eilian, y Waunfawr (Graianfryn gynt) eu chwaer. Cydymdeimlir â hwythau hefyd a Mrs C.

Pritchard, Bryn Derwen (chwaer-yng-nghyfraith).

EISTEDDFOD '79 — Fel a drefnwyd rai misoedd yn ôl cynhelir noson o Gaws a Gwin trwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies, yng Nghastell Cidwm ar Chwefror 6 i ddechrau am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ **Llanberis** Perchennog
Rhydd- Aneuryn
Feddiant FFÔN : LLANBERIS 277 Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



TAI HAF - PENTRE MARW

gan Eryl Fychan, Arweinydd Grŵp Tai
Cymdeithas yr Iaith

"Mae tai haf yn lladd pentrefi" - datganiad digon emosiynol ond, yn anffodus, un gwir yn ardaloedd gwledig Cymru heddiw. Beth yw tŷ haf? Tŷ a brynwyd gan deulu o bell (o Gymru neu Loegr) i'w ddefnyddio ar gyfer gwyliau, hynny yw, ail dŷ i fyw ynddo am ar y mwyaf tri mis o'r flwyddyn yn unig. Am y gweddill o'r flwyddyn, mae yn wag, ac yn yr enghreifftiau gwaelaf, fel pentref y Rhyd, ger Penrhyndeudraeth, Gwynedd, lle mae pob tŷ ond un yn y pentref yn dŷ haf, drwy gydol y gaeaf y mae'r pentref yn wag hefyd - ac yn farw.

Mewn llefydd felly, y mae effeithiau lledaeniad tai haf yng Nghymru i'w gweld yn amlwg, ond ymron ym mhob un o bentrefi a threfi bychain y Gymru wledig heddiw, y mae tai haf yn ddylanwad dinistriol ar iaith a chymdeithas. Y maent hefyd yn golygu fod nifer o deuluoedd lleol yn mynd yn ddigartref - 4,000 ohonynt yng Ngwynedd, tra mae 7,000 o dai haf. Dyma yw anghyfiawnder y sefyllfa - teuluoedd o bell yn trigo mewn ail dŷ am lai na thri mis y flwyddyn, tra mae teuluoedd lleol heb eto allu bod yn berchen eu cartref cyntaf, yn ddi-gartref 12 mis y flwyddyn ac yn aml, flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Nid yw gwrthwynebu lledaeniad tai haf yn golygu nad ydym yn barod i groesawu ymwelwyr, yn Gymry, Saeson, neu unrhyw genedl arall, i fwynhau harddwch diameduol Cymru, ond y mae eisoes wersylloedd gwyliau, gwersylloedd carafanau, a gwestai, sydd yn rhoi gwaith i bobl leol ar yr un pryd ag y maent yn darparu llety digonol i ymwelwyr. Fel y mae hi ar hyn o bryd, yr ydym yn rhoi hawliau trigolion dros dro o flaen hawl y bobl leol i feddu ar eu cartref, un cartref, eu hunain.

Beth allwn ni ei wneud? - Y mae gan y Cyngorau Dosbarth yr hawl ar hyn o bryd i brynu tai sydd yn mynd ar y farchnad agored, ac a fyddai'n debygol

o gael eu prynu i'w defnyddio fel tai haf yn unig, i'w llogi ar gyfer teuluoedd lleol digartref. Nid yw pob Cyngor yn defnyddio'r hawl hwn - ysgrifennwch at eich Cyngor lleol chi i ofyn beth y maent hwy'n ei wneud.

Ond y mae'r cyngorau sydd eisoes yn gwneud hyn, fel Cyngor Ceredigion a Chyngor Dwyfor, yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg arian - arian sy'n cael ei wadu iddynt gan y Swyddfa Gymreig. Ni all ond y Cyngorau bwysu'n effeithiol ar y Swyddfa Gymreig i newid y sefyllfa hon, ac ni all ond lluo o lythyrâu oddi wrth bobl leol sy'n poeni am ddyfodol eu pentrefi eu hysgogi i wneud hynny.

Nid oes gan yr un Cyngor, fodd bynnag, yr hawl i ymyrryd o gwbl â'r tai sydd eisoes yn dai haf - na allant wneud dim ond eu gadael yn wag am dri chwarter o'r flwyddyn. Os ydym am ennill yn ôl bentrefi fel y Rhyd yn bentrefi byw, yna mae'n rhaid wrth yr hawl i'r cyngorau brynu drwy orfodaeth y tai hyn i'w llogi i bobl leol - rhaid mynnu bod un cartref gan bawb cyn y caniateir ail gartref i rai.

Y ffordd y gallwn ni, y bobl sy'n byw yn y pentrefi sydd dan fygythiad, fynnu eu harbed, felly yw sgrifennu at y cyngorau yn mynnu yn gyntaf eu bod yn gwneud popeth a allant o fewn y gyfraith bresennol, â'r arian sydd ar gael iddynt i brynu tai oddi ar y farchnad, ac yn ail i sicrhau eu bod yn pwysu ar y Swyddfa Gymreig i gael yr hawl cyfreithiol a'r arian angenrheidiol i ddelio yn wirioneddol effeithiol â'r broblem.

Yn enwedig os ydych yn ddigartref eich hunain, mynnwch fod y Cyngor a etholwyd gennych yn sicrhau eu bod yn cyntaf i chwi yn hytrach na chaniatáu eich ardal droi'n ailgartrefi i eraill.

Cyfeiriad eich Cyngor Dosbarth lleol yw:

Cyngor Dosbarth Arfon,
Swyddfeydd Cyngor, Caernarfon.

LLYN PERIS, IONAWR 1979



CANOLFAN ASTUDIAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Dau gwrs Cymraeg ym mis Chwefror

Chwefror 9-11 - GLYNDWR -
EI HYNT YM MEIRION

Arolwg o fywyd ac amserau arwr mawr
y Cymry


Chwefror 23-25 - ARCHEOLEG YN ERYRI

Ymweld â safleoedd sydd yn cael eu cloddio ar hyn o bryd a thrafod cyfraniad pobl at archeoleg yn eu bro

Manylion pellach: Y Pennaeth,
Plas Tan y Bwlch,
Maentwrog,
BLAENAU FFESTINIOG. Maentwrog 324



O, MAE HI'N OER!



Nant Peris a Gwasg Gwynedd (cartref yr Eco) dan blanced wen, Ionawr 1979.

O, 'ROEDD HI'N OERACH!



Ionawr 1979 yn fis oer - ond dim byd tebyg i aeaf 1917. Trigolion Llanbêr yn profi bod Llyn Padarn wedi rhewi'n gorn. Diolch i Mrs K. Jones, Llanberis a'r Parchedig E.A. Owen, Biwmares am y llun.

The Willows,
9 Bryn Hyfryd,
Hendre Park,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Beth am gystadleuaeth 'A ydych yn cofio?' 'Rwyf yn cael Eco'r Wyddfa o'r dechrau. Bydd Gryffydd Pritchard o Frynrefail yn gwneud yn saff o gopi imi. Ac mae'n braf cael hanes y fro a'r cylch. Mae llawer yn gyrru i'r Eco gan ofyn am hanes rhywun.

Petai i'r Eco wneud cystadleuaeth allan o'r mater, fel y bydd y bobol sydd yn darllen yr Eco yn troi yn dipyn o dditectif.

'Rwyf yn siŵr y buasai yn help mawr a hefyd yn rhoi pleser mawr.

Yr eiddoch yn gywir,

Mrs M.E. Pritchard.

Clywch, Clywch! - Gol.

Gorffwysfa,
240 Greystones Road,
Eccleshall,
Sheffield.

Annwyl Olygydd,

Carwn drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa ddiolch o galon i'r holl gyfeillion a pherthnasau a fu mor garedig ag ymweld â'm brawd, Mr Gwilym Evans, 3 Terrace, Cwm-y-glo, tra yn ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon. Hefyd y meddygon a'r gweinyddesau am eu gofal caredig. Bendith Duw fo arnoch oll.

Diolch o galon a dymuniadau gorau am Flwyddyn Newydd Dda i bawb o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

Yr eiddoch yn gywir,
Nellie Maude Mullins,
(Evans gynt)

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN

CAERNARFON 2898

DEINIOLEN

DATHLU PEN-BLWYDD yn 90 oed — Fe ddathlodd Mr W.M. Hughes, Rhiwen ei ben-blwydd yn 90 oed ddydd Sadwrn, Rhagfyr 30, 1978. Cafodd amser difyr yng nghwmni ei deulu, a derbyniodd deisen yn rhodd wedi ei gwneud yn arbennig gan ei gyfnither, Mrs Iorwerth Edwards (Rhiwen gynt) a hefyd 83 o gardiau a llawer o anrhegion.

Dymuna Mr Hughes ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ato.



Darlun o Mr a Mrs W.M. Hughes, Rhiwen ar eu hymwelid â'r RAF yn y Fali yn ddiweddar.

MARWOLAETH — Bu farw Mr Robert J. Davies, 33 Hafod Oleu yn sydyn fore lau, Ionawr 4 ym Mhlas Maesincla, Caernarfon. 'Roedd yn gerddor da ac yn aelod o amryw o gorau meibion yn ystod ei oes. Bu hefyd yn aelod ffyddlon o eglwys Disgwyfya ar hyd ei oes. Bu'r angladd bawn Mawrth, Ionawr 9. Cynhaliwyd gwasanaeth yng nghapel Disgwyfya pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Trefor Lewis, ei weinidog, a'r Parch. S.H. Williams, Cesarea, ei gyn-weinidog, a Mr Emyr Pritchard wrth yr organ. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ac i Blas Maesincla a'i feddyg, y Dr. Nora Marren, am eu gofal.

PLAID CYMRU — Cynhaliwyd Pwyllgor o gangen Plaid Cymru a. Ionawr 9. Penderfynwyd gofyn am gynrychiolaeth o'r gangen i 'Rali' ymgyrch Gwynedd dros cynulliad ym Mangor ddydd Sadwrn, Ionawr 13. Fel gwerthfawrogiad o waith y cynysgrifenyddes, Miss Jean Parc Jones, Blaen Cae, prynwyd cloc iddi am ei gwasanaeth yn ystod y tair blynedd. Bu rhaid gohirio'r cyfarfod dan ofal Mrs Mary Vaughan Jones yn Ysgol Gwaun Gynfi ar Ionawr 10 oherwydd yr argyfwng olew.

MERCHED Y WAWR — Cyfarfu

Merched y Wawr nos Lun, Rhagfyr 18 Cafwyd noson ddifyr, gyda'r aelodau yn canu carolau, ac eitemau gan Mrs N. Hughes, Erw Fair. Mrs Gwladys Evans a'r parti adrodd. Yn ystod y noson dymunwyd yn dda i Mr John Morris ar achlysur ei ymdddeoliad, a chyflwynwyd rhodd fechan iddo gan Miss Priscie Roberts, llywydd cyntaf Merched-y-Wawr. Darllenodd Mrs Helen Sutherland lythyr oddi wrth y llywydd, Mrs Dilys Hughes yn ymddiheuro am ei habsenoldeb. Enillwyd y raffl gan Mrs Myfanwy Jones, Pentre Helen. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd tamaid ysgafn blasus wedi ei drefnu gan y pwyllgor.

LLONGYFARCHIADAU — i Eleri Owen, 29 Stryd Newydd am lwyddo yn ei harholiad piano, Gradd 4 (Royal School of Music). Mae Eleri yn cael ei hyfforddi gan Miss Williams, Summer Hill, Llanberis.

CYDYMDEIMLAD — Y mae amryw o deuluoedd y pentref wedi colli anwyliad yn ystod y mis diwethaf. Cydymdeimlwn yn fawr â hwy oll yn eu hiraeth.

DIOLCHIDAU — Dymuna Dylan Wyn Williams, Tŷ Capel, Cefn-y-waun ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn cael triniaeth yn ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

DYMUNIADAU — am adferiad llwyr a buan i holl bentrefwyr Deiniolen a Chlwt-y-bont sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar, rhai mewn ysbytai ac eraill yn gaeth i'w cartrefi.

BLYCHAU CENHADOL — Yr oedd cyfanswm yr arian a gasglwyd gan blant ac aelodau Eglwys Disgwyfya yn ystod 1978 bron i £3 yn fwy na'r flwyddyn cynt. Casglwyd yn y dosbarthiadau fel a ganlyn: Clwt-y-bont: £2; Pentre Helen: £3.40; Terrace: £7.70; Pentra: £7.75. Casglwyd gan y plant mewn blychau: Berwyn a Bryn Jones: £2; Dylan, Sian, Julie ac Emllyn Cole Jones: £3.96½; Dilwyn ac Anwen Thorman Jones: £2.85½; Nia a Gavin Saynor: £1.27. Eifiona a Gwenfair Williams: £3.40; Bethan Jones: £1.00; Elfed, Delyth, Dewi a Ceri Williams: £4.01½; Carwyn, Ceirion a Cemlyn Thomas: £1.77½; Paul a Paula Pritchard: £4.75½; Andrew a David Jones: 50c; Eurwyn, Jean, Gwenda a Gareth Grindley: £3.34½; Raymond, Sharon, Malcolm a Neal Griffiths: £2.40½. Y cyfanswm oedd £52.20½. Diolchir am bob cyfraniad ac i bawb a fu o amgylch i gesglu.

PANTOMEIM — Ar y trydydd o Ionawr aeth 85 o blant a rhieni capeli Cefnywaun a Disgwyfya i weld y Pantomeim Eli Babi yn Theatr Gwynedd. Mwynhaodd pawb ei hun yn ardderchog yn enwedig pan helpodd

nifer o'r plant Eli Babi i ganu ar y llwyfan. Efallai mai nhw fydd yn cynnal y pantomeim y flwyddyn nesaf. Pwy a wŷr.

DRAMA'R GENI — Uchafbwynt y Nadolig yng nghapel Disgwyfya a Cefnywaun yn ddi-os oedc perfformiad o 'Awn hyd Fethlem' gan blant yr Ofalaeth. Perfformiwyd y ddrama yn y ddau gapel ar yr un noson ac fe gafwyd cefnogaeth deilwng i'r ddau berfformiad. Cafwyd actio o ansawdd da iawn gan yr holl gymeriadau ac y mae pawb yn edrych ymlaen am y 'Dolig nesaf yn barod! Diolchir i bawb a fu'n hyfforddi'r plant; gofawyr am y gwisgoedd; cyfeilyddion; gofawyr am y goleuadau ynghyd a'r ddau gynhyrchydd.

NOSWYL NADOLIG — Cynhaliwyd Gwasanaeth o Garolau a Darlleniadau dan nawdd Cyngor Eglwys Deiniolen yng nghapel Disgwyfya. Canwyd carol gan aelodau Clwb Elidir, Sefydliad y Merched, Clwb Ieuenctid, Band Deiniolen a hefyd Côr Plant yr Ardal. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Côr ganu'n gyhoddus ac fe wnaethant gyfrif da ohonynt eu hunain. Darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan aelodau Eglwys Ebeneser, Tabernacl, Cefnywaun, Libanus a Disgwyfya, a hefyd y Clwb Snwcer tra chafwyd adroddiad gan Ferched y Wawr. Yn cynorthwyo hefyd yr oedd aelodau Ambwlans St. Ioan, y Girl Guides a'r Brownies.

Ymunodd y gynulleidfa i ganu nifer o garolau i gyfeiliant Organ a'r Band. Dymuna'r Cyngor Eglwys ddiolch i bawb a gymerodd ran ac a gyfrannodd i wneud y gwasanaeth yn un bendithiol.

APÊL GWAUN GYNFI — Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Apel nos Fercher Ionawr 17 pan oedd Mr W. Pierce Rowlands a Mr Iolo Llewelyn, Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Cyllid yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor Apêl.

Adroddwyd y disgwyli'r y Parch. John Alun Roberts, Llanllechid gynt, i gyflwyno ei ddarlith ddiddorol ar y testun 'Chwalu', yn Ysgol Gwaun Gynfi am saith o'r gloch nos Fercher, Ionawr 31. Mae tocynnau eisoes ar werth a phwysir am gefnogaeth i'r ddarlith arbennig hon gan un o 'gymeriadau' ein cenedl.

Bydd y pentrefwyr yn falch o wybod bod yr Apêl bron â chyrraedd £1,500 h.y. mwy na hanner y ffordd at gyrraedd y nod o £2,900 a dymuna'r Pwyllgor ddatgan gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth frwd a brofwyd hyd yma. Gyda golwg ar chwyddo'r gronfa gwahoddur y darllenwyr i nodi'r trefniadau canlynol: CHWEFROR 14: Gyrfa Chwist; MAWRTH 2: 'Brethyn Cartref' (Cyngerdd o ddoniau lleol, rhagor o fanlynon maes o law); MAWRTH 23: Disgo i'r plant ieuengaf. Gwnaed elw sylweddol o'r 'Clwb 200' y llynedd, ac mewn ymateb i'r gofyn lleol parheir efo'r 'Clwb' am y chwe

mis nesaf, os oes ddarllenwyr a diddordeb mewn ymuno, brysiwch am un o'r ychydig leodd sydd yn aros ar gael.

PRIODAS — Dydd Sadwrn, Rhagfyr 9 yng nghapel Maes y Dref, Clwt-y-bont, priodwyd Miss Frances D. Fraser Jones, merch Mrs J. Fraser Jones a'r diweddar Mr. G.J. Jones, Glandinorwig, Clwt-y-bont, a Mr Allan Stewart, mab Mr a Mrs A. Stewart, Dundee, Yr Alban. Gweinyddwyd gan y Parch. Hugh Hughes, a'r organydd oedd Mr Griffith, Cae'r Bythod. Rhoddwyd y briodasferch i'w gŵr gan ei brawd, Mr T.J. Fraser Jones. Y morynion oedd Miss Delyth Pritchard (ffrind), Miss Patricia Fraser Jones (chwaer), Miss Sioned Fraser Jones a Miss Karen Fraser Williams (dwy nith y briodferch). Y gwas oedd Mr Philip Bailey a'r ystlyswyr Mr Allan Joss a Mr S.C. Smith. 'Roedd y wledd briodas yng ngwesty Erw Fair, Llanberis gyda 80 yn bresennol. Bydd Mr a Mrs Stewart yn byw yn Helensburgh, yr Alban. Mae Mr Stewart yn gweithio ar HMS Sparton yn Barrow-in-Furness, a Mrs Stewart yn SCTT, HMS Neptune, yr Alban.



LLYFRAU

Daeth tri llyfr i law o wasg y Lolfa. Y GAMP LAWN — R. Gerafft Jones, Huw Llywelyn Davies a Carwyn James. Y tîm gorau erioed i gynrychioli Cymru? Dyma mae'r ffeithiau yn ei ddweud. Yn y llyfr yma daw'r cyfan o wefr tymor olaf y Tîm Aur yn fyw unwaith eto, hyd yn oed i drigolion ardal bêl-droedaidd! Bydd galw am y llyfr yma ymhen canrif eto o rygbi Cymreig, a phwy a wŷr, efallai mai rygbi fydd y gêm fawr yn ardal yr Eco bryd hynny! Felly archebwch y llyfr rwan. Pris: £1.65. Y LLEWOD A'R TREN SGRECH Y LLEWOD YN DILYN Y SÊR Dafydd Parri.

Sut mae'r dyn yn llwyddo i gael amser wn i ddim — ond nid yw cefnogwyr y Llewod yn gorfod disgwyl yn hir cyn cael stori newydd mewn print. Prynwch nhw'n sydyn blant cyn i rif 19 a 20 ymddangos. Pris: 85c yr un.



Llun y plant bach yn mwynhau parti Nadolig Ysgol Feithrin, Deiniolen.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS !

(Rydym yn arbenigo mewn teisenau Priodas)

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLLEN, DINORWIG, FACHWEN

LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU — I Arwyn a Dilys Roberts, 'Arlys', 5 Stryd y Ffynnon ar enedigaeth eu merch fach, Meinir Angharad.

Hefyd i Tony a Janet Pepper, 11 Stryd Newton, ar enedigaeth eu merch fach, Sara.

DIOLCH — Dymuna Mr a Mrs Arwyn Hefin Roberts, ddiolch o galon i bawb, yn deulu a chyfeillion am yr holl anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch, Meinir Angharad.

DYWEDDIO — Dymuniadau da i Elinor, merch Mr a Mrs E.A. Pritchard, 38 Maes Padarn ar ei dyweddian â Myrddin, mab Mrs M. Jones, Greuor Villa, Brynrefail.

Hefyd, ein dymuniadau gorau i Maureen, merch Mr a Mrs J. Guy a Raymond, mab Mr a Mrs T.J. Roberts ar eu dyweddian yn ddiweddar.

PENODIAD — Da yw clywed am blant yr ardal yn llwyddo, ac un o'r rheini yw Val Lambrecht, mab hynaf Mr a Mrs Lambrecht, Dôl Elidir. Penodwyd ef yn brifathro Ysgol Limetree, Sale, Sir Gaer. Dymunir iddo bob llwyddiant.

GARTRE — Nadolig hapus 'roedd hi ar aelwyd 42, Maes Padarn, pan ddaeth Heather a'i mab bychan, Simon adref o'r Almaen i dreulio'r gwyliau gyda'i rhieni. Mae ei gŵr yn gwasanaethu gyda'r Llu Arfog.

NYRSIO — Llongyfarchiadau calonnog iawn i Jane Owen, 50 Dôl Elidir ar ei llwyddiant yn ei harholiadau nyrsio.

CASGLIAD DA — Trefnwyd y Casgliad Poppy, y Lleng Brydeinig gan y Cynghorydd Trefor Wyn Williams, Glan Peris, a chafwyd y cyfanswm ardderchog o £157.96. Diolch iddo ac i'r casglyddion am eu gwaith eithriadol.

COLLI'R FRWYDR — Hen fisoedd cas, oer a gerwin yw Rhagfyr hyd fis Mawrth, a dyma'r misoedd y bydd y cleifion yn eu hofni, ac yn brwydro yn galetach i geisio gweld y gwanwyn. Ond colli'r frwydr a wnaeth rhai o'n cyfeillion a mawr fydd ein hiraeth a'n cof amdanynt.

THOMAS EVANS, 'Caledfryn' — yr hynaf o'r blaenoriaid yn Nant Padarn, fu farw yn sydyn ar ôl cystudd hir. Ei holl fyd oedd gofalu am ei briod annwyl a chyfrannu ei holl allu ymhob agwedd i'r achos yn yr eglwys. Bu'n ffyddlon hyd y diwedd, ac erys colled ar ei ôl.

IFOR MORRIS — yntau ond 63 oed, a fu farw yn yr ysbyty. Bachgen tawel a dymunol iawn, a ddioddefodd ei salwch yn wrol a di-rwgnach am flynyddoedd lawer.

Gofalwyd amdano yn dyner iawn gan ei briod, Nellie Morris, a chydymdeimlwn â hi a'r teulu, ei frodyr a'i chwiorydd, yr wyrion a'i wyresau.

"BOB OWEN" — dyma fel yr adnabyddir ef gan yr ardalwyr, nid fel Robert Owen, Dôl Eilian. 'Roedd yn un o'r bechgyn mwyaf addfwyn a chymwynasgar a welodd Llanberis erioed, Eglwyswr mawr; aelod ffyddlon am flynyddoedd o Seindorf Llanberis, cefnogwr y Lleng Brydeinig, a chynaelod o'r R.W. Fusiliers.

Gweithiodd yn y chwael am amser maith, a gadawodd yr hen chwael ei chraith arno fel ar lawer. Bu'n wael iawn droeon, ond byddai yn cael rhyw wellhad sydyn ond am fyr amser — ac mor ddiolchgar yr oedd o gael gwella petai ond am ysbaid. Yn y diwedd colodd yntau y frwydr a bu farw yn yr ysbyty ym Mangor. Cydymdeimlir â'i weddw a'r teulu oll.

WILLIAM WILLIAMS — fel Wil Bach Ty'n Ffynnon yr adwaenwyd y Cynghorydd William Williams, a fu

farw yn Ysbyty Gallt-y-Sil yn 78 oed. 'Roedd yn gymeriad doniol a difyr i fod yn ei gwmni. Bu'n byw yn Llundain am rai blynedd ond yn ôl y daeth i'r hen gynfein i ddiwedd ei oes. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys St. Padarn, a chynt pan yn y Nant o Eglwys St. Peris.

PRIFATHRO NEWYDD — Dechreuodd Mr John Huw Hughes, cynbrifathro Penmachno ar ei waith fel prifathro Ysgol Dolbadarn. Dymunir iddo bob llwyddiant yn ei waith ac estynnir croeso cynnes iddo i'r ardal.

PRIODAS — Yn Eglwys Gwenfaen, Rhoscolyn, ar Sadwrn, Rhagfyr 2 priodwyd Myfyr, mab Mr Hugh Roberts, Stryd y Ffynnon ac Eleri, merch Mrs N.G. Roberts, Four Mile Bridge.

Dymunir iddynt flynyddoedd lawer o hapusrwydd.

CLIRIO'R EIRA — Dymuna trigolion Minafon ddiolch i Mr Michael Pritchard am ddod allan i glirio'r eira. Dim byd yn arbennig yn hynna medde chi. Ond mae Mr Pritchard yn 86 oed.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Mrs Non Evans fu'n dangos sut i addurno cacen Nadolig i aelodau'r Sefydliad y mis hwn. Cafwyd noson effeithiol iawn.

O'R YSBYTY — Croeso adre i Mrs Janet Davies, Snowdon Garage, ac i Miss Gwyneth Rees Jones, 'Rallt Goch.

GWASANAETH NADOLIG — Nos Sul, Rhagfyr 24 cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Gorffwysfa gan blant holl gapeli'r pentref.

'Roedd y gwasanaeth wedi ei rannu'n dair rhan — y Cartref, yr Ysgol, a'r Capel.

Trefnwyd y noson gan y Parch. Marcus Robinson, gyda Mrs Ann Pritchard wrth y piano. Cymerwyd rhan gan:

Marc, Cai, Justin, Llion, Jackie, Dylan, Paul, Delyth, Einir, Neil, Trystan, Julie, Christine, Nicola, Euron, Eilian, Geraint, Darryl, Simon, Annette, Keith, Dylan, Mark, Petula, Melanie, Einir, Catrin, Gillian, Ian, Ann, Iona, Bethan, Rhiannon, Mennai, Bethan, Rhian a Wendy.



TE PARTI — Dyma rai o blant yr Ysgol Feithrin yn cael hwyl hefo Siôn Corn yn eu te parti Nadolig.

CARNIFAL LLANBERIS — Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol Carnifal Llanberis ar nos Iau Ionawr 11 yn y Ganolfan Gymdeithasol.

Dewiswyd y canlynol yn swyddogion am 1979: Cadeirydd: Mr Ken Jones; Is-gadeirydd: Mr Lal Jones; Ysgrifennydd: Mr Alwyn Thomas; Is-

ysgrifennydd: Mr Cledwyn Jones; Trysorydd: Mr Arfon Phillips; Is-drysorydd: Mr William Roberts.

Swyddogion Cyhoeddusrwydd: Mr Alwyn Thomas a Mrs Siân Thomas.

Pasiwyd i roi £100 o arian Carnifal '78 i Bwyllgor y Ganolfan at brynu cadeiriau newydd i'r Ganolfan, a'r gweddill i'w rhoi yng nghronfa'r Carnifal tuag at wella'r Ganolfan.

Bydd Wythnos Garnifal Llanberis 1979 o 13 hyd 21 o Orffennaf.

Wyn Thomas, Ysgrifennydd.

DIOLCH — Dymuna Mr Jack Davies ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniodd gan ei berthnasau, cymdogion a ffrindiau yn ystod ei salwch diweddar.

MARWOLAETH — Yn frawychus o sydyn ar ddydd Mawrth, Ionawr 23 yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, bu farw Mr Huw Buck, Maes Derlwyn.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf i'w briod, Mrs Mary Buck.

DIOLCH — Dymuna Mr a Mrs Batten, Maes Padarn ddiolch i bawb am eu cardiau a'u cydymdeimlad ar achlysur trist marwolaeth chwaer Mrs Batten.

CLWB METHEDIG ERYRI — Gohirwyd y clwb am fis Ionawr oherwydd y tywydd garw, ond gobeithir ail-ddechrau ar Chwefror 5.

Hoffem ddiolch i brifathro, athrawon

a disgyblion Ysgol Brynrefail am eu rhodd caredig i'r clwb.

CRONFA'R STEDDFOD — Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iawn i Gwmni Rheilffordd Llyn Llanberis am eu cyfraniad hael o £100 ac hefyd i bwyllgor yr Ysgol Feithrin am eu cyfraniad hwythau o £10. Mae'r rhain yn symbyliad i'r pwyllgor ar ddechrau blwyddyn fel hyn.

Cynhelir Bingo yn y Ganolfan nos Wener, Chwefror 2 am 7.30. Nos Wener, Mawrth 2 cynhelir noson o Helfa Chwilod (Beetle Drive). Croeso cynnes i chwi yno.

Saif y gronfa ar hyn o bryd oddeutu £2,900. Hoffwn apelio ar i bawb sydd yn bwriadu cyfrannu ond sydd heb wneud hyd yn hyn i roi eu cyfraniad i'r canlynol:

Mrs Siân Thomas, Foelas; Mrs Bet Roberts, Rock Terrace; Mr Gwynfor Williams; Mrs Enfys Parry, Noddfa; Mrs Iola Sellars a Miss Jane Morris. Mae'r casglyddion eraill wedi bod o amgylch gweddill y pentref yn barod.

Anfonwyd llythyr apêl i bob mudiad a chapel yn yr ardal a mawr hyderwn y byddant yn gallu ein cynorthwyo i gyrraedd y nod yn ystod y misoedd nesaf yma.

Cynhelir y pwyllgor nesaf nos Fawrth, Chwefror 6 am 8 o'r gloch yn Festri Gorffwysfa.

Y GWASANAETH NADOLIG



YMDRECH FFATRI GWNEUD DILLAD LLANBERIS AT 'OFFER Y GALON'

Cyflwynwyd siec am £450 gan Mr Barry Chesworth, rheolwr cwmni Glyn Protective Clothing, Llanberis ar ran y merched i Mr Gwynfor Williams o Wasanaeth Ambiwlans Adran Gwynedd, tuag at 'Offer y Galon'.

Gwnaeth y merched ymdrech fawr iawn i godi y swm yma trwy wneud gwerthiant o wahanol

waith llaw a choginio i'w gwerthu, a hyn yn ystod yr awr ginio. Hefyd yr oeddynt yn rhoi o'u gwirfodd at rafflau, yr oedd hyn yn dod â llawer iawn o arian i mewn.

Mae'r holl 150 o aelodau'r ffatri wedi gwneud gwaith da at yr achos yma ac y maent yn haeddu pob diolch.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Perchnogion newydd, ond gwasanaeth a chroeso cystal ag erioed!

E. & E.M. GREEN

SIOP GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER FFRWYTHAU A LLYSIAU FFRES

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

ANERCHIAD GŴYL DEWI 1900

CEFAIS gopi o anerchiad Gŵyl Dewi gan Miss Buddug Llwywen Williams, Bro Dawel, Llanrug a chaniatad i'w chyhoeddi yn *Eco'r Wyddfa*. Ei thad, y diweddar Mr Hugh Pierce Williams, Tyddyn Rhyddallt, Llanrug a roddodd yr Anerchiad pan oedd y teulu yn byw ym Mhontypridd, De Cymru.

Gwnaeth H.P. Williams wasanaeth gwerthfawr yn ardal Llanrug wedi dwad yn ôl yma i fyw o Bontypridd. Dysgai blant a phobl i adrodd, canu ac actio mewn dramâu ac mewn amrywiol ffyrdd eraill bu'n gymwynaswr parod bob amser. Y mae'r Anerchiad hon mor bwrpasol heddiw ag ydoedd bron bedwar ugain mlynedd yn ôl. Diolch yn fawr iawn i Miss Buddug Ll. Williams am ei chadw mor ofalus a'i chyflwyno i ninnau.

Mr Cadeirydd a chydgladgarwyr, A mi'n ddyn ieuangc, ac yn ddieithryn, yr wyf yn teimlo nas gallaf draethu digon fy niolchgarwch am yr anrhydedd a estynwyd i mi trwy fy newis i gynyg y Llwn-destyn oll-bwysig i ni yma heno, ac i Gymry gwladgarol, gyda'n cyfeillion o genhedloedd ereill, trwy yr holl fyd gwarediddiedd nid amgen ein bythgofiadwy Dewi Sant.

Hyd yn nod pe buasai amser yn caniatáu; a fy ngwybodaeth innau yn fy ngalluogi i siarad defnydd cyfrolau ar arwr ein Gŵyl Genedlaethol, yr wyf yn ymwybod mai ofer fyddai ceisio hynny, gan fod pob un yn y cwmni hwn yn fwy hyddysg na mi yn hanes cysylltiadau a nodweddion Dewi Sant.

Ar yr un pryd dichon nad anffuddiol i ni, a broffeswn ein hunain yn wladgarwyr, adgoffa ein gilydd, ar achlysuron fel hyn, o rai o'r ffeithiau yng nglŷn â hanes a hynodwydd rhai o'n henafiaid, sef y ffeithiau a wnaeth i'w cyd-genedl trwy yr holl fyd, hyd oesau dirifedi, gymal Gwyliau Cenedlaethol er eu hanrhydeddu fel arwyr a Saint. Y mae cenedloedd Cristionogol yr holl ddacwr yn unfryd unfarn, wedi rhoi i'r Cymro, a enwyd Dafydd ac ynghlŷn â'i urddiad esgobol a alwyd yn Dewi, yr anrhydedd o gael ei restru ym mhlith y penaf o enwogion y chweched ganrif. Y mae llên a lleyg, boneddig a gwreng, yn ei adwaen fel Dewi Sant, a'r dydd cyntaf o bob mis Mawrth yn cael ei neillduo ai gadw fel Dydd Gŵyl Dewi.

Y mae Giraldu yn dweud fod Dewi a Chynog yn gyfeillion mawr, ac mai Cynog oedd ail esgob Llanbadarn, ac hefyd mai efe a olynodd Dewi Sant yn Arch-egob Tŷ Ddewi tua'r flwyddyn 544.

Y mae Llyfr Llandaf yn dweud fod Dyfrig Beneurog, mab Eurdyl ferch Peibiau, mynach, esgob a sant yn Senedd Trefi wedi trosglwyddo ei archesgobaeth i Dewi ac ymneillduo i Ynys Enlli.

Mae yn amlwg nad oedd bod yn Gymro y pryd hwnnw, yn unrhyw rwystr ar ffordd dyn i gael ei

ystyried ai yn foneddwr na thywysog, na brenin, nac i unrhyw urddas ac awdurdod mewn Gwlad na Eglwys.

Ac er fod diwygiad amlwg i'w ganfod yn y cyfeiriad yma yn y dyddiau hyn, mae rhai ohonoch chwi yn cofio yr amser pan oedd cael ei adwaen fel Cymro yn anfantais i ddyn a fynai fyned oddi cartref i geisio gwella ei hun. Yr amser hynny yr oedd medru Cymraeg yn gymaint o bechod fel ag i anghymwyso ymgeisydd am swydd, neu ryw le gwell yn ei wlad ei hun. Byddai raid i'r Cymro ddysgu siarad ei iaith mewn rhyw sŵn Seisnig, neu goeg-Seisnig, neu Ddic-Sion-Dafyddol, yn awr onid oes gormod o wir yn hynyna hyd yn nod yn ein plith ni y foment hon?

Mae yn ddiameu gennyf fod rhai ohonoch yn cofio ac nas anghofiwch ychwaith yr effaith a arferai Llew Llwyfo gael pan fyddai yn ei hwyliu goreu yn adrodd hanesyn am y diweddar fardd Talhaiarn ac yntau wedi dringo i ben y Wyddfa, er mwyn bod yn dystion o weled gogoniant Codiad yr Haul o gopa'r Wyddfa.

Byddai Llew Llwyfo yn adrodd yr hanes fel engrafft o ragfarn dosbarth lluosog nas gallai Cymro fod yn foneddwr. Buasai'r dosbarth hwnnw yn protestio i hyd yn nod Dewi Sant gael ei wneud na'g esgob na Sant! Byddai dylanwad Llew Llwyfo yn drydanol ar y gynulleidfa wrth ddweud yr hanes. Dyma fo.

Yr oedd Llew Llwyfo a Talhaiarn wedi mynd am wyliau am fis i Landudno ar ôl tymhor o lafur llenyddol ac Eisteddfodol caletach nag arfer. Yr oedd y ddau wedi rhoi eu bryd ar fynd i weld yr haul yn codi, ac yng ngeiriau Caledfryn i

"Ddringo'r Wyddfa gopa gwyn
A chwareu ar ei choryn."

Cychwynodd y ddau Fardd am Lanberis ac aethant i letya i Westy Victoria. Gyda doniolwch dywedai Llew Llwyfo fod ganddynt fwy o aur ac arian yn eu llogellau nag o ddoethineb yn eu penglogau. Y prawf o hynny oedd y ffaith iddynt fynd i letya i'r gwesty mwyaf costus yng Nghymru ar y pryd pan y buasai gwesty cyffredin wedi gwneud y tro.

Prawf arall o ddiffyg doethineb oedd ordro dau arweinydd (guides) i fynd â nhw i ben y Wyddfa, a rhoi swper da yn y Victoria i'r ddau cyn cychwyn. Felly yr oedd eisiau talu am swper i bedwar a phrynu potel frandi i bob un. Pwrpas hyn wrth gwrsoedd cael eu cydnabod gan y "guides" yn foneddigion. Ar ben hynny yr oedd y beirdd yn siarad

Saesneg. Yr oedd hynny yn selio'r ffaith mai boneddigion oeddynt.

Cerddent yn brysur a heinyf. Yn agos i grib y Wyddfa y mae math o ogof fach a dywedir mai o'i mewn hi y tardd y dwfr puraf, croewaf, ac oeraf sydd i'w gael yn Ewrop. Cawsant yfed o'r dwfr hwnnw wedi ei gymysgu â'r hyn oedd yn y poteli.

Yna eisteddodd y "guides" ar ddarn o graig a safai y ddau fardd ychydig or neilldu i wylid arwyddion y wawr. Dyma un o'r "guides" yn dweud, "Fuost ti yn tywys dau foneddwr yr un fath â rhain erioed?" Atebodd y llall, "Naddo erioed, fach'an."

"Pwy glywodd sôn am gael swper yn yr Hotel cyn cychwyn o'r blaen? A phwy o honom ni gafodd siâr o frandi byddigion cyn hyn. Dyma'r ddau wr bonheddig pena welsom erioed."

Cychwynwyd eto yr ychydig latheni i'w dringo i gyrraedd copa'r Wyddfa. Yr oedd anian fel pe wedi gorchymyn boreuddyd braf o bwrpas i foddio y Beirdd. Gwelent yr haul yn ymolwyno i fyny fel planed o dân a'r disgleirdeb a'r ysplandra, y mawredd a'r gogoniant trwy yr holl eangder gwladwy, yn ormod i deimladau Talhaiarn. Dychafodd ei ddwyllaw i fyny a chan anghofio y Saesneg oedd wedi ei ddefnyddio cyn hynny, gwaeddodd a llef uchel, "Y Brenin Mawr — Dyma olygfa ogoneddus."

Ac ar hynny methodd un "guide" ymatal rhag torri allan mewn haner gwallgofrwydd "Shon — nid byddigion ond Cymry ydi y rhain."

Onid gallwn longyfarch ein gilydd ar y profion eglur a geir fod diwygiad amlwg a grymus trwy Gymru yn y cyfeiriad yma. Yn lle gweled yn y newyddiadur pan y bydd eisiau gwas neu forwyn frawddeg fel hyn "No Welsh need apply", yr ydym yn gweled yn awr "Welsh preferred". Yr ydym heddiw yn gweld hawl proffwyd i anrhydedd yn ei wlad ei hun, — Felly yr ydym yn ymdebygu yn hyn i'r cyfnod a deimlai ddylanwad Gwladgarwch, Cenhedlgarwch a Dyngarwch ein Dewi Sant.

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

DYMA PWY OEDDA' NHW



Dafydd Iwan Rosalind Owen
Maureen Rhys (Lloy
Elwyn Jones, (Hogia'r Wyddfa)

Na 'doedd o ddim yn anod
Ond choeliech chi byth, med
yliodd rhai fod Gwyn Erfyl, El
Llwyd a Gweinidog Llanrug yno

Pwy oedd yn iawn? Cannoed
Yr ateb cywir i ddod o'r het?

Eiddo Mrs CLARA ROBERT
ANFIELD, STRYD FAW
LLANBERIS. Llongyfarchiad
Mrs Roberts, mae'r £5 ar
ffordd. Diolch i'r cannoed
yrrodd a chwithau a feddyliod
am yrru — wel gyrrwch i'r gysta
leuaeth nesaf.

Pwy Ydoedd Y Pedwar

Llys Meredydd
Tan-y-coed
Llanrug

Annwyl Olygydd,

A fyddwchystal â chaniatáu lle bychan yn eich papur da iawn i g
hanes y pedwar chwarelwr glew sydd yn y llun. Yr oeddynt yn gweithio gyda'i gily
ym Mhone y Dyffryn yn chwarel Dinorwig. Dyma nhw i chwi, o'r chwith i'r dd
y diweddar Owen Hughes, 'Bryn,' Cwm-y-glo. Credaf, os cofiaf yn iawn, mai un
ochrau Brynsiencyn, Mon oedd Mr. Hughes. Yn ail, y diweddar John David Owen, LL
Meredydd, Tan-y-coed, Llanrug (Jac Owen Rali i bobl y chwarel, gan mai yn R
Uchaf, Llanberis yr oedd ei gartref). Yn drydydd, y diweddar Hughie Green, GL
ffrwd, Llanrug, yntau yn cael ei adnabod fel Hughie Pandy, Llanrug. Yn bedwerydd
y diweddar Gwilym Hughes, Bryn, Cwm-y-glo, mab Mr. Owen Hughes, sydd yn y llun
Y pedwar yn huno yn erwau'r gro ers blynnyddoedd bellach. Heddwch i lwch y pedwa
Y llun trwy garedigrwydd Mrs. J. M. Griffith o'r cyfeiriad uchod — merch
diweddar John D. Owen.



DEDDA' NHW



Dafydd Iwan Rosalind Owen
Maureen Rhys (Lloyd)
Elwyn Jones, (Hogia'r Wyddfa)

Na 'doedd o ddim yn anodd.
Ond choeliech chi byth, medd-
yliodd rhai fod Gwyn Erfyl, Eleri
Llwyd a Gweinidog Llanrug yno!

Pwy oedd yn iawn? Cannoedd.
Yr ateb cywir i ddod o'r het?

Eiddo Mrs CLARA ROBERTS,
ANFIELD, STRYD FAWR,
LLANBERIS. Llongyfarchiadau
Mrs Roberts, mae'r £5 ar ei
ffordd. Diolch i'r cannoedd
yrrodd a chwithau a feddylodd
am yrru — wel gyrrwch i'r gystad-
leuaeth nesaf.

Y Pedwar

Llys Meredydd,
Tan-y-coed,
Llanrug.

au lle bychan yn eich papur da iawn i gael
lun. Yr oeddynt yn gweithio gyda'i gilydd
g. Dyma nhw i chwi, o'r chwith i'r dde:
lo. Credaf, os cofiaf yn iawn, mai un o
Yn ail, y diweddar John David Owen, Llys
Rali i bobl y chwarel, gan mai yn Rali
rydydd, y diweddar Hughie Green, Glan-
l Hughie Pandy, Llanrug. Yn bedwerydd,
lo, mab Mr. Owen Hughes, sydd yn y llun.
doedd bellach. Heddwch i lwch y pedwar.
Griffith o'r cyfeiriad uchod — merch y



Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



BLWYDDYN Newydd Dda i chi i gyd. Gobeithio y bydd hi'n flwyddyn
hapus a llwyddiannus i bob un ohonoch.

Siomedig iawn fu'r ymateb i
gystadleuaeth y llinell goll. Dim
ond chwe llinell a dderbyniwyd i
fyny i heno (Ionawr 17), ac i
feddwl i mi gael dros ddau gant o
linellau y tro cynta' i mi osod
cystadleuaeth o'r fath. Efallai i
chwi fwyta gormod dros y
Nadolig i fynd ati i lunio llinellau
felly, fe adewir y gystadleuaeth yn
agored am y mis hwn eto. Dyma'r
pennill i'w orffen:

Prif ddymuniaid Modryb Mari
Yw cael gwyliau yn Hawaii
Ond dymuniad Huws y Person

Anfonwch eich llinellau erbyn
Chwefror 13eg i **Crud yr Awen,
Bethel.**

Er inni gael cryn dipyn o "eira",
ni chefais yr un gerdd gan y plant,
a fentrodd neb o'r oedolion anfon
cerdd i mi ar "Ddatganoli"
'chwaith. Cychwyn siomedig a
digalon i flwyddyn newydd yntê?

Ond diolch am y ffyddloniaid
sy'n cadw lliidiart y Llannerch ar
agor.

Diolch i Dafydd Whiteside
Thomas am y soned hon. Mae
Dafydd mewn penbleth ynglŷn â
chael teitl i'r gerdd. Fedrwch chi
awgrymu un?

Bûm yma'n eistedd lawer tro o'r blaen
Yn teimlo cosi pigog rhedyn crin,
A gwrando clecian banad' ar y waen;
A thithau ferch, yn pwyso ar fy nglin;
Minnau'n arogl'r persawr ar dy groen
A blasu'r gwin ar dy wefusau llawn:
Anghofio'r byd, ei sŵn, ei gur a'i boen
A byw mewn nefoedd fach am un
prynhawn.

Ond heddiw yn y rhedyn crin a'r gwair
Teimlaf y pigo'n frwnt, a'r crafu'n gras;
A chlywaf glecian gwawd yn sŵn dy air
Gwefusau gwin sy' nawr yn grechwen
cas,

A thithau'n cellwair caru â hwn a'r llall
Gwelaf dy dwyll — er i mi fod mor
ddall.

David Whiteside Thomas,
Llanrug.

Diolch i chwithau unwaith eto
Mrs Enid Jones, Talysarn — un
arall o'r ffyddloniaid. Daeth eich
cerddi Nadolig i mewn yn rhy
ddiweddar i'r golgygydd eu
cynnwys. Mae'n amlwg fod ardal
eich mebyd yn agos iawn at eich
calon.

ARDAL FY MEBYD

Hen ardal fy mebyd, mor dirion, mor
bêr,
Dychmygaf di heno ynghwsg dan y sêr;
Pob bwthyn a'r barrug yn wyn ar ei do;
A'th seintiau yn gorwedd yn fud dan y
gro.

Hen ardal fy mebyd, mor annwyl mor
dlos,
Meddyliaf amdanat cyn cysgu bob nos.
Dy greigiau a'th nentydd a'th goedydd
di-ri
A sŵn dy bistylloedd, sy'n nefoedd i
mi.

Hen ardal fy mebyd, hen gartref y saint
Mae nodi dy enw o hyd i mi'n fraint.
'Rwy'n cofio'r tyddynnod a'r hen

Gapel clyd
Lle dysgais yn fore am Waredwr y byd.

Hen ardal fy mebyd — lle dechreuais
fyw,

Iaith estron a ddisgyn yn awr ar fy
nghlyw;

Maent yno'n bodoli, nid yno yn byw —
Bodoli wna popeth heb grefydd, heb
Dduw.

Hen ardal fy mebyd, 'rwy'n siŵr o
ddod 'nôl

I heddwch dy greigiau o'm crwydro
ffôl,

Ac os mai estroniaid a'm derbyn yn
syn —

Bydd cwmni'r atgofion yn felys bryd
hyn.

Enid Jones,
Talysarn.

Er mai 'Mis Rhagfyr' yw teitl
eich cerdd chwi John V. Morris,
Clwt-y-bont, mae neges cychwyn
blwyddyn newydd ynddi. Diolch i
chwithau am ei ffyddlondeb i'r
Llannerch.

MIS RHAGFYR

Rhagfyr a'i ryferthwy,
a dawns y curlaw cras;
Adeg cardod Robin,
A'r Titw Tomos Las.

Tymor oer y gaeaf,
a'i rew ar ddŵr y llyn,
A'r Wyddfa fel brenhines,
yn gwisgo'i choban gwyn.

Ac angau'n llechu'n ddistaw,
uwch mynwent oer y plwy,
A chalon rhywun eto'n
cael ei thorri'n ddwy.

Coed yr ynn yn plygu,
gan nerth y stormydd cry';
A'r niwl yn disgyn weithiau
ar lethrau noeth Cefn Du.

Glawogydd mawr a churlaw,
cilfachau haul a gwynt;
A'r diwrnod yn diflannu
a'r nos yn dod ynghynt.

Ac ar y gorwel gwarrog,
Nadolig sydd mor dlws;
A chlychau a charolau,
ac addurn uwch y drws.

Dweud ffarwél i'r flwyddyn,
gan edrych 'mlaen i'r ha';
Cyfarchion ar ben tymor
A "Blwyddyn Newydd Dda"!

Un o'r llyfrau Cymraeg a
brynais yn ystod y Nadolig oedd
'Rhiwen' sef atgofion yr hynafgwr
W.M. Hughes, Deiniolen. Cefais
flas arbennig ar y llyfr hwn a
charwn ddiolch yn gynnes iawn i
Mr Glyn Thomas, Dinorwig a'i
longyfarch am ei waith. Nid
dyma'r tro cynta' i Glyn wneud
cymwynas â'r fro, na'r tro ola'
gobeithio. Diolch Glyn.

Cofiwch am y llinellau coll.
Hwyl fawr,
Selwyn.

TEYRNGED O GAPEL SAESNEG Y BEDDYDDWYR, CORBY

I JOHN EMLYN JONES,
East Lynne, Llanberis

Tair blynedd ar hugain yn ôl
ymfudodd John gyda'i deulu o
Llanberis i Corby. Yn ystod yr amser
yno bu ef a'i wraig Lottie, yn aelodau
ffyddlon i'r Eglwys.

Rhoddodd iechyd John lawer o
boen ers amser maith i bawb o'i
gwmpas, — ni wnaeth gweithio yn y
chwarel lawer o les iddo. Ond
ysbrydolwyd pawb wrth weld pa fath
nerth ac amynedd oedd ddo i
ddioddef y boen a'r b... Er iddo
gael triniaeth lawfeddyg at ei galon a
dioddef pethau dyrys iawn, ni allai
dim ei ddigalonni. Dywedai Lottie:
"Ni fyddai byth yn cwyno". Gallai
gyfrif ei fendithion a llawenhau bob
amser.

Caiff ei gofio gyda rhyw hoffter gan
bawb, ac fel priod annwyl, a thad
ffyddlon. Yr oedd yn aelod ffyddlon
o'i gapel ac yn gerddor talentog.

Yn sicr, bydd colled ar ôl John, ond
llawenhawn wrth wybod y bydd byw
byth.

Bydd John fyw yng nghalonau a
meddyliau ei deulu, ei ffrindiau a'i gyd-
aelodau.

Bydd fyw yn ei gerddoriaeth, a balch
ym oll iddo adael ar ôl y fath gyfoeth a
harddwch — ac yn enwedig caniaeth
i'r cysegr i glodfori Brenin y Brenhin-
oedd.

Bydd John fyw mewn nefoedd ddi-
boen, ple gwelir perffeithrwydd Duw
yn amlygu ei hun.

Mae ein calonnau yn cydymdeimlo â
Lottie mewn gwir gariad — gan fod
pawb yn hoff ohoni ac yn ei galw yn
'Anti Lottie'. Nid oes raid ei hatgoffa
fod Duw yn noddfa iddi, a bod y
breichiau tragwyddol oddi tani.

Gweddiwn drosti yn ei hawr dywyll
gan wybod fod Duw yn cynnal a
chynorthwyo o hyd: Bydded iddynt
gael eu cysuro a derbyn doethineb
Duw i'w harwain i'r dyfodol.

Rhoddodd John fynegiant i'w dalent
gerddorol trwy'r Gymdeithas Gymraeg
yn Corby. Fel llawer Cymro o'i flaen,
cerddoriaeth oedd ei fywyd, a chyd-
nabyddwyd ei fod yn gyfansoddwr o
fri.

Ysgrifennodd laweroedd o donau a
chafodd lawenydd wrth eu gweld
wedi'u cyhoeddi. Byddai'n cystadlu;
mae un yn disgwyl beirniadaeth yrran,

Er ei ddawn a'i fedr nid oedd byth
yn uchel-synied amdano'i hun, ond yn
wastad yn Gristnogol ostyngedig, gan
roddi ei dalent er gogoniant i Dduw,
bob amser.

Fe fydd colled fawr ar ei ôl ymysg
Cymry a Saeson Corby, ond cofir
amdano gyda chariad dwys; edmygedd
o'i waith, a diolchgarwch di-ben-draw.

Cyfieithwyd o'r Saesneg gan
Mrs Dilys Baylis

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn Neuadd yr Eglwys ar Ionawr 4. gyda Mrs Katie Jones yn y gadair.

Cafwyd sgwrs ar 'Cymorth Cyntaf yn y cartref' gan Mrs Joan Davies, Nant y Mynydd a diolchwyd iddi gan Mrs Morfa Evans. Enillodd Mrs Davies y raffl a Mrs Woods oedd enillydd y gystadleuaeth. Y gystadleuaeth ar gyfer y mis nesaf yw 'gwneud pâ o fwts i fabi'. Y gwestwragedd am y noson oedd Mrs Margaret Owen. Mrs Alice Johnstone a Mrs Sandra Eldrige.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau Chwefror 1 yn yr Ysgol gyda sgwrs ar Addurno Ffynhonnau gan Mr O.E. Evans.

Cynhaliwyd cyfarfod fis Rhagfyr o'r Sefydliad yn yr ysgol nos lau diwethaf. Cydymdeimlodd y llywydd, Mrs Katie Jones a Mrs Mary Davies a'i theulu yn eu profedigaeth. Y wraig wadd oedd Miss Gwyneth Owen, Caernarfon a ddangosodd rhai o'i theganau meddal a'i haddurniadau ar gyfer y Nadolig. Enillwyd y raffl gan Mrs Blackstone y cystadleuaeth ar gyfer y mis nesaf yw 'Arddangos canhwylbren anghyffredin'. Bydd y cyfarfod nesaf, a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys, nos lau, Ionawr 4 yn gyfarfod agored i oedolion, pan fydd Mr Huw Morris yn arddangos lluniau o'i ymweliad â'r Himalayas yn ddiweddar.

YR YSGOL FEITHRIN — Mae'r Ysgol Feithrin wedi gwahodd Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Bargen' i'r Waunfawr. Sioe ddoniol, dreiddgar, a thrist ar brydiau yw 'Bargen' wedi ei seilio ar ddiwydiant a ddylanwadodd ar bron bob un ohonom yng Ngwynedd — y chwareli. Ar nos Fawrth, Chwefror 20 am 7 o'r gloch maent yn dod i Neuadd yr Eglwys, gyda pris mynediad o 50c. Byddwn hefyd yn dewis brenhines y carnifal y noson honno.

YR AELWYD — Nos Fawrth, Ionawr 16 cafwyd noson ddiffr iawn pan ymwelodd Aelwydydd Penygroes a'r Groeslon â'n Haelwyd ni. Cawsom hwyf fawr yn ein heisteddfod ffug — bu cadeirio ar y bardd buddugol a chyflwynwyd tarian i Aelwyd Penygroes am ennill y mwyafr o farciau. Y beirniaid oedd Arwel Jones, Llanrug ac Ifan Glyn Jones, Penygroes.

YN YR YSBYTY — Dymunwn wellhad buan i Mr William Griffiths, Tref Eilian a Mr Francis Williams, Bryn Golau.

CYDYMDEIMLO — Ein cydymdeimlad dwysaf â'r canlynol: Mrs Jones a Miss M. Pritchard, 9 Tref Eilian — colli chwaer; Mrs Buddug Rowlands, Tre Wen — colli brawd; Mrs M. Jones, 19 Tref Eilian, colli priod a Mr Haydn Jones — colli tad; Mr Wyn Jones, Bron Eifion, colli brawd; Mrs R.L. Parry, Eilian Terrace, — colli chwaer; Mrs Bayley Williams, Tyddyn Llwyn — colli brawd.

LLONGYFARCHIADAU — Da clywed am lwyddiant y canlynol mewn

arholiadau cerddoriaeth — Kevin Roberts, Sŵn y Gwynt, Simon a Nicola Roberts, Tŷ Hen a Nia Pritchard, Min y Grug.

21 OED — Llongyfarchiadau i Elizabeth Owen, Tref Eilian ar ei phenblwydd yn 21 oed.

PRIODAS — Dymuniadau gorau i Linda Williams, 'Heli', ar ei phriodas â Mr William Raymond Websell, o Abergele.

CARREG FILLTIR ARALL — Llongyfarchiadau i'r Dr. a Mrs Miles ar enedigaeth wyres fach — merch i Eira a Gareth.

UNAWDYDD — 'Roedd Alun Williams, 13 Bro Waun yn un o'r unawdwyr mewn gwasanaethau carolau yn ddiweddar yn Llanberis, Waunfawr a Chwm-y-glo.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL — 'Cofio'r Wyl' oedd thema'r cyfarfod olaf cyn y Nadolig. 'Roedd y noson yng ngofal Rhodri Prys Jones a thrwy gyfrwng ugeiniau o sleidiau cyflwynodd y wlad a fu'n llwyfan i'r digwyddiadau sy'n gyfrifol am Wyl y Geni. Bu Rhodri a'i ffrindiau yn Israel ar eu gwyliau ddechrau'r haf diwethaf a gellid meddwl, ar ôl gweld y lluniau a dynnwyd ganddynt, iddynt ymweld â phob cwr ohoni. Diolchodd Miss Bessie Jones yn gynnes iawn iddo am sgwrs a lluniau mor nodedig. Mr Rol Williams oedd yn llywyddu'r cyfarfod. Eleni gan nad oedd llawer o arian yn y coffrau, bu'n rhaid i'r Gymdeithas ar ddechrau blwyddyn newydd ofyn am galennig. Gwnaed hyn trwy gynnal Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys nos Lun, Ionawr 15. Da dweud i lond neuadd ddod ynghyd ac mae'n debyg mai Rovi y consurwr oedd y dynfa yn enwedig i'r plant. Mae'n diolch yn fawr iawn i Rovi am ein diddanu yn ddi-dâl, eisoes diolchwyd iddo ar ffurf penillion gan Mr T.H. Williams. Diolch hefyd i bawb arall a gefnogodd, mewn unrhyw fodd, y noson yma. Sgwrsio am gerddoriaeth yr oedd Mrs Mair Welsh nos Lun, Ionawr 22. Cyflwynodd weithiau'r cyfansoddwyr enwog gan dynnu sylw at adeiladwaith a chrefft eu campweithiau. Anodd gwybod ai'r gerddoriaeth-hyfryd ynteu afiaith personoliaeth Mrs Welsh a fwynhawyd fwyaf. Bu i'r cyfuniad pleserus yma sicrhau noson ddiffr iawn i bawb oedd yno. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Menna Williams a chafwyd y pleser hefyd o wrando arni yn canu. Diolchodd Siôn Prys Jones i Mrs Welsh am noson mor arbennig. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 5 pryd y bydd leuan Owen yn dangos ffilm — Chwaraeon y Gymanwlad — Edmonton 1978.'

NEWYDDION — cofiwch ddanfôn newyddion mewn da bryd i Llidiart Wen — neu ffonio 201.

MIS YR HWYL A'R SBRI I'R PLANT!



SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL LLANRUG

Arian a gasglwyd tuag at Achosion Dyngarol Rhagfyr 1978:

Dr. Barnado: £10; North Wales Blind: £10; United Nations: £10; Kidney Research: £6; Mentally Handicapped: £3; Disability and Rehabilitation: £3; Spastic Society: £3; Guide Dogs for the Blind: £6; Cancer Research: £6; R.S.P.C.A.: £3; Muscular Distrophy: £6; Caernarfon Ambulance Cardiac Fund: £6.

Yn gwneud cyfanswm o £72.00. Gwerthiant nwyddau tuag at Gymdeithas y Methodig Meddyliol £35.

CWRS CERDDORIAETH

Dydd Mawrth, Ionawr 23, aeth pedair o enethod yr ysgol, ynghyd â Mr R.G. Parry, yr athro cerdd, i

HANNER CANMLWYDDIANT EISTEDDFOD YR URDD

Hanner can mlynedd yn ôl ym 1329, cynhaliwyd Eisteddfod gyntaf Urdd Gobaith Cymru yng Nghorwen.

Fel rhan o'r dathliadau yn y dref ym mis Medi 1979, bwriedir cynnal Arddangosfa i geisio cysylltu dyddiau cynnar yr Wyl â'r gweithgareddau presennol sef llinyn rhwng ddod a heddiw.

Hoffwn apelio at eich darllenwyr am wybodaeth o luniau o'r Eisteddfodau cynnar, cynhyrchion (llenyddiaeth, celf a chrefft), gwobrwyon (coron,

Brifysgol Bangor, lle buont yn dilyn cwrs undydd oedd yn berthnasol i'r cwrs cerdd lefel 'O'.

"BALLET RAMBERT"

Prynhawn Mercher, Ionawr 24, aeth 50 o enethod o'r ysgol ynghyd â Mrs Marjorie Wroe a Mrs Noreen Manning, i Theatr Gwynedd i weld 'Take a Running Jump'. Perfformiad oedd hwn gan y cwmni enwog 'Ballet Rambert', oedd yn amlinellu hanes dawns ar hyd y canrifoedd.

Yn dilyn yr ymweliad yma daeth dau aelod o'r cwmni i'r ysgol y bore canlynol i gynnal 'Gweithdy Dawns' gyda 30 o'r genethod.

cadair, brysgyll, medal), baneri'r adrannau, neu unrhyw beth fyddai'n dangos datblygiad yr Eisteddfod.

Buaswn yn ddiolchgar petai unrhyw un sydd a rhywbeth fel hyn yn ei feddiant, ac sy'n fodlon ei arddangos yn rhoi gwybodaeth i mi. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn gofalu am bopeth a fenthycir ac yn ei ddychwelyd yn ddiogel.

Lona Jones,
Ysgrifennydd Pwyllgor yr
Arddangosfa, Gŵyl Dathlu
Corwen 1929-79.
Crud y Gwynt,
Glanrafon,
Corwen, Clwyd.

Y CROMLECHI I AROS

Cafwyd buddugoliaeth gref gan aelodau a chefnogwyr cymdeithas y Parc Cenedlaethol pan benderfynodd pwyllgor Sir Gwynedd i beidio ag ymyrryd â'r Gromlech sydd ym Mwlch Llanberis. Bu'r cyfeillion hyn yn brwydro am dros chwe blynedd i gadw'r meini yma fel ag y maent a chawsant gefnog-aeth rhai miloedd o ddiethriaid a dringwyr.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg


Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

Cronfa Eisteddfod Caernarfon



Mae pob colofn yn golygu nod y pentref. DROS Y NOD
 Y SWM YN Y COFFRAU

BEIRO SY'N CANU CLOCH ?



PENISARWAUN

MARWOLAETHAU — Bu'r gaeaf yn un creulon iawn eleni a chollasom nifer o'n cyfeillion annwyl:

Mrs ARTHUR ELLIS, Weirglodd Goch gynt; bu farw mewn ysbyty yn y Rhyl noson cyn y Nadolig. Ei chymdogaes o'r Weirglodd Las, Mrs MARY C. JONES. Hefyd Mr GWILYM JONES, Craig y Ddinas ac ar Ionawr 20 Mr HUGHIE ROBERTS, Vine Cottage. Mae colli y bobl hyn a'u tebyg yn golled erchyll, ac ni fydd ein cymdeithas cystal hebbyddyn nhw. Cydymdeimlwn yn llwyr â theuluoedd y pedwar hyn.

YSGOL SUL CAPEL GLASGOED — Cafodd plant Ysgol Sul Capel y Glasgoed eu te parti nos Wener cyn y Nadolig. Cafwyd perfformiad o Wyl y Geni ganddynt. Yr oeddynt wedi eu hyfforddi gan Mrs Glyn Evans. Rhannwyd yr anrhegion gan Mr Percy Williams a diolchwyd i'r plant, athrawon a'r rhieni ynghyd â Mrs Glyn Evans gan Mr H. Williams.

JUDITH A DILWYN GREEN — Bu Judith a Dilwyn Green o amgylch y pentref yn canu carolau a derbyniwyd £4 ganddynt i Glwb yr Heulwen. Diolch yn fawr i chwi blant.

MRS REES THOMAS — 'Dydy Mrs Rees Thomas ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar; dymunwn adferiad buan iddi.

EGLWYS SANTES HELEN — (Mewn ysbyty) — Deallwn fod Mrs A. Pritchard, Pensarn yn gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty ym Mangor; anfonwn ein cofion ati.

Hefyd i'n cyn-ficer y Parch. D.W. Edwards, rheithor Llanllechid, yntau hefyd ym Mangor.

CYDYMDEIMLWN — â theulu y diweddar Mrs M.C. Jones, Y Weirglodd Las a theulu y diweddar Mr G. Jones, Craig Dinas yn eu profedigaeth.

COLLI MERCH — Mae holl aelodau St. Helen yn cydymdeimlo â churad y Felinheli a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli merch.

Cafwyd cyfarfod o Naw Llith a Charol Noswyl y Nadolig. Diolch i bawb a gymerodd ran yn arbennig i'r plant am ddod i ganu eu carolau.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Ionawr 23. Llywyddwyd gan Mrs Mary Davies. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Rees Thomas, Mrs K. Williams a Mrs J.P. Jones. Cydymdeimlwyd â Mr John Jones, y Weirglodd Las a'r teulu, Mrs Roberts, Vine Cottage a'r teulu, a theulu'r diweddar Gwilym Jones, Craig Dinas, y tri theulu wedi cael profedigaeth. Treuliodd y noson yn tynnu rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Pasiwyd

i fynd i Westy am luniaeth ar Noson Gŵyl Ddewi.

Enillwyd raffl y noson gan Mrs Bessie E. Williams a darparwyd y te gan Mrs Margaret Williams a Mrs Ann Jones.

Drwg gennym am y camgymeriad a wnaethpwyd y mis diwethaf yn enwau'r swyddogion newydd a ddewiswyd.

Dyma'r swyddogion:

Llywydd: Mrs Mary Davies; Islywydd: Mrs Glenys Williams; Ysgrifennydd: Mrs Margaret Williams; Trysorydd: Mrs Ann Jones.

Bu Mrs Percy Williams yn drysorydd y Sefydliad am 32 o flynyddoedd a gwnaeth ei gwaith yn ardderchog. Diolchwyd iddi am ei gwaith gan Mrs Mary Davies a dymunwyd yn dda iddi ar ei hymddeoliad o'r swydd.

MR. EVAN WILLIAMS — Bu farw Mr Evan Williams (Cae Dicwm gynt) yn ysbyty ym Mangor yn ddiweddar. Yr oedd ar hyn o bryd yn gwneud ei gartref yn Llanfairpwll gyda'i ferch. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth. Yr oedd Mr Evan Williams yn gymeradwy iawn yn yr ardal.

YR EISTEDDFOD — Diolch yn fawr i Miss Phyllis Ellis, Rhosfair am drefnu parti dillad Pandora, gan drosglwyddo'r elw i gronfa'r Eisteddfod.

Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y Noson 'Dolig yn yr Ysgol, ond yn arbennig i Mrs Lovatt a'i pharti o gangen Merched y Wawr, Llanrug am roi inni wledd gerddorol a hynny'n ddi-dâl. Enillwyd y raffl oedd: Llestri Tupperwar: Mrs J. Price Jones, 13 Bryntirion; Potel o Sieri: Miss Lona Jones, Rhiwlas; Bocs o Nwyddau: Mrs N. Williams, 12 Bryntirion.

Mae'r pwyllgor yn falch o gyhoeddi bod £925 yng nghronfa'r pentref hyd yn hyn. Hoffwn apelio am i bawb sydd yn bwriadu cyfrannu ond sydd heb wneud hyd yn hyn i drosglwyddo'u cyfraniadau i un o aelodau'r pwyllgor os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr.

Bydd Ffair Sborion yn Neuadd yr Eglwys nos Iau, Chwefror 1af am 6.30

AR WERTH

'Baby Bouncer' ar 'stand' — fel newydd, bargaen am £6 — Ffon: Llanberis 602 — Mrs Sheila Williams, Bryn Hyfryd, Brynrefail.

'Torrwr Gwair' "Qualcast" 12" £15 — Roberts, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
 I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Arvon Coaches
LLANRUG
 FFÔN WAUNFAWR 254

Cwis Mawr Y REFFERENDWM

*3eth am roi cynnig ar y cwestiynau
ryn? Fe gewch farc am bob ateb cywir
yn adrannau A-E. Rhwir hyd at ddau
farc yr un am atebion cywir yn adran
F. Felly mae modd ennill 50 i gyd.*

Adran A: Hanes Cymru

Beth yw pwysigrwydd y dyddiadau
ryn yn hanes Cymru ac ym mherth-
ynas Cymru a Lloegr?

1. 1282
2. 1404
3. 1485
4. 1536
5. 1964

Adran B: Cymru a Phrydain Heddiw

6. Beth yw poblogaeth Cymru?
7. Beth yw poblogaeth y Deyrnas
Unedig?
8. Faint y cant o bobl Cymru sy'n
ddi-waith? Dewiswch un o'r tri
ateb: 4%, 6%, 8%
9. Beth yw incwm y pen ar gyfar-
taled yng Nghymru heddiw?
Dewiswch un o'r tri ateb: £1,756,
£1,682, £1,525
10. Sawl milltir o draffordd sydd yng
Nghymru? Dewiswch un o'r tri
ateb: 590, 250, 59

Adran C: Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru

11. Faint o aelodau sydd yn Nhŷ'r
Cyffredin?
12. Faint sydd o Gymru?
13. Faint o amser Tŷ'r Cyffredin a
neilltuir yn swyddogol mewn
blwyddyn i ofyn cwestiynau i
Ysgrifennydd Cymru?
14. Beth yw'r Uwch-Bwyllgor Cymreig?
15. A ellir siarad Cymraeg yn Nhŷ'r
Cyffredin?

Adran Ch: Y Swyddfa Gymreig

16. Pwy oedd Ysgrifennydd cyntaf
Cymru?
17. Sawl Ysgrifennydd Cymru sydd
wedi bod?
18. Pa rai o'r meysydd hyn sy'n
gyfrifoldebau'r Swyddfa Gymreig:
Tai, Llywodraeth Leol, Iechyd,
Addysg Gynradd, Addysg
Uwchradd, Ffyrdd,
Amaethyddiaeth?
19. Faint yw gwariant y Swyddfa
Gymreig yn flynyddol? Dewiswch
un o'r tri ateb: Deng miliwn o
bunnau, Cant a hanner o filiynau o
bunnau, Dros fil o filiynau o
bunnau.
20. Faint o'r cyrff hyn sydd â'u
haelodau'n cael eu hethol yn
uniongyrchol gan bobl Cymru:
Corfforaeth Ddatblygu Cymru,
Awdurdod Tir Cymru, Awdurdod
Dŵr Cymru, yr Awdurdodau
Iechyd Rhanbarthol?

Adran D: Y Ddau Gynulliad

21. Sawl aelod fydd yn y Cynulliad
Cymreig?
22. A fyddant yn derbyn tâl?
23. A fydd dull eu hethol mewn rhyw
ffordd yn wahanol i ddull ethol
aelodau i Westminster?
24. A all yr un person fod yn aelod o'r
Cynulliad ac o Dŷ'r Cyffredin?
25. A fydd gan y Cynulliad Cymreig
hawl i basio deddfau?
26. A fydd gan Gynulliad yr Alban yr
hawl hon?
27. A fydd yna 'Brif Weinidog'
Cymreig?
28. A fydd yna 'Gabinet' Cymreig?
29. Faint o weision gwladol a fydd eu
hangen o'r newydd pan sefydlir y
Cynulliad? Dewiswch un o'r tri
ateb: 100, 45,000, 1,100
30. Dros ba rai o'r meysydd hyn y
bydd gan y Cynulliad Cymreig
hawliau: Addysg Gynradd,
Amddiffyn, Tai, Amaethyddiaeth,
Mewnffudiad, Llywodraeth Leol,
Treth Incwm?

Adran Dd: Effeithiau'r Newid

31. A effeithir mewn unrhyw ffordd
ar safle a swyddogaeth y
Frenhines?
32. A fydd y Swyddfa Gymreig ac
Ysgrifennydd Cymru'n dal mewn
bod?
33. A fydd yna ryw newid yn rhif yr
A.S.'au Cymreig yn Westminster?
34. A fydd 'Grant Cynnal y Trethi' i
awdurdodau lleol ar gael fel o'r
blaen?
35. Sut y bydd y Cynulliad Cymreig
yn cael ei arian, a beth (yn ôl yr
amcan diweddaraf) a fydd cost
rhedeg y Cynulliad yn flynyddol?

Adran E: Prydain a'r Cyfansoddiad

36. Beth yw oed y Deyrnas Unedig ar
ei ffurf bresennol?
37. Pwy oedd y Brenin cyntaf neu'r
Frenhines gyntaf i deyrnasu dros
'Brydain Fawr'?
38. Cynrychiolir Lloegr, yr Alban ac
Iwerddon ar yr Union Jack. Pam
na chynrychiolir Cymru?
39. Sonnir o hyd am 'British Subject',
'British Passport', 'British Rail' a
'British Steel', ond nid 'British
Law'. Pam?
40. Os oes gennych chi 'P.C.' o flaen
eich enw, plisman ydych chi. Os
oes gennych chi 'P.C.' ar ôl eich
enw, beth ydych chi?

Adran F: Cywir ai Anghywir?

Pa rai o'r gosodiadau hyn sy'n gywir?
Meddyliwch yn ofalus. Ceisiwch roi,
nid yr ateb yr hoffech chi iddo fod yn
wir, ond yr ateb sy'n ffeithiol a
rhesymegol gywir. A rhwch reswm
di os eich ateb — cewch ail farc am
hwnnw.

41. 'Y mae Cymru'n rhan o Loegr'.
42. 'Y mae yna'r fath beth â chenedl
Brydeinig'.
43. 'Y mae yna'r fath beth yn
gyfreithiol â 'Dinesydd Prydeinig'
(British Citizen)'.
44. 'Gall rhywun nad oes ganddo ond
tŷ haf yng Nghymru bleidleisio
yn y refferendwm ar Fawrth 1.'
45. 'Ar ôl datganoli, Llundain fydd
a'r gair olaf o hyd'.

Atebion ar dudalen 15

DINORWIG

ER COF — Cyflwynwyd cyfanswm o
£130.65 i Ysbyty Clatterbridge, y
Wirral drwy gyfraniadau ariannol yn lle
blodau er cof am y diweddar Mr Morris
Perkins, 5 Bro Elidir, a fu farw'n
ddiweddar. Dymuna'r plant ddiolch i
bawb am eu caredigrwydd haer i'r
achos teilwng.

O'R YSBYTY — Estynnir croeso
adref i Mr David Jones, 5 Maes Eilian a
Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian, o
Ysbyty Môn ac Arfon lle buont am
driniaeth. Gwellhad buan iddynt.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mr a Mrs
Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian ddiolch
i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am
eu caredigrwydd tuag at Eirwyn tra bu
yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.
Diolch hefyd am y cardiau a'r
anrhegion a dderbyniodd.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr
Kelvin Fleming, 1 Maes Eilian ar
gyrraedd ohono ei ben-blwydd yn 21
mlwydd oed ar Ionawr 25. Pob
bendith i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mr a Mrs
Roberts, Ysgubor, ddiolch i bawb am
eu caredigrwydd at Arfon tra bu yn yr
ysbyty a hefyd dros y Nadolig.

CYMDEITHAS LENYDDOL

UNDEBOL — Yn y Ganolfan, nos lau,
Rhagfyr 14 bu gwasanaeth o ganu
carolau dan nawdd y Gymdeithas.
Cymerwyd rhannau arbennig gan y
Parch. Ifor L. Williams, Miss Annette
B. Roberts a Mr David L. Hughes. Nos
lau, Ionawr 4 bu Cyfarfod Gwedd
Undebol dan nawdd y Gymdeithas
yng Nghapel Sardis (B). Cymerwyd
rhan mewn eitemau arbennig gan y
Parch. Ifor L. Williams, Miss Olwen B.
Roberts, Mr Hugh Thomas, Mr O.R.
Williams, Miss E. Wyn Jones a Mr
David L. Hughes.

Nos lau Ionawr 18 yn Festri
Dinorwig, M.C., diddorwyd aelodau'r
Gymdeithas gan Barti Glynrhonwy,
Llanberis, dan arweiniad Mr Ted
Morris. Llywyddwyd gan Mr Clwyd
Evans, Llangefti a gyfrannodd eitemau
storol i'r cyfarfod. Talwyd y diolch-
iadau gan Mr David L. Hughes.

CYDYMDEIMLO — Cydymdeimlir â
Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd a
Mr D.R. Jones, Bron Myfyr a'r
cysylltiadau teuluol ym marw eu
brawd yn ddiweddar yn Lerpwl.

Cydymdeimlir â Mr a Mrs David
Jones, 5 Maes Eilian ym marw sydyn
eu mab-yng-nghyfraith Mr Cecil Jones
Caernarfon, hefyd â Mair eu merch yn
ei phrofedigaeth sydyn a llym. Cyd-
ymdeimlir â Mrs Ann Jones, 3 Bro
Elidir, a'r cysylltiadau teuluol, ym
marw ei thad Mr Gwilym Jones, Craig
Dinas, Cwm-y-glo yn ddiweddar.

CLWB IEUENCTID — Diolch i
aelodau'r Clwb Ieuenctid am eu
hanrheg Nadolig i'r henoed. Gwerth-
fawrogwyd yn fawr.

MARW — Yn Ysbyty Môn ac Arfon,
Rhagfyr 26 wedi cystudd caled bu
farw Miss Heulwen Jones, Cegin,
y Fachwen. Bu'r angladd ym mynwent
Pentir, Rhagfyr 30. Cydymdeimlir â'i
mam a'r cysylltiadau teuluol yn eu
colled a'u phrofedigaeth.

PANTOMEIM — Yn ystod gwyliau'r
Nadolig ymwelodd plant ac oedolion
eglwysi Sardis, St. Mair a Dinorwig â
Theatr Gwynedd, Bangor lle y
mwynhawyd pantomeim Eli Babi.



CADWCH Y DDRAIG I CHWIFIO HOGIA !

Hogia'r fro yn Awstralia yn cofio at bawb o'u hen fêts. Eurwyn Roberts,
Llanrug, John Closs, Nant Perls, Huw Alun, Ceunant, a Twm Tŷ 'Rardd, Llanrug.
Tynnwyd y llun yn Sydney, Awstralia fis Tachwedd 1978.

Malan Jones

Cadnant,
4 Glanrafon Terrace,
Tanygrisiau,
Blaenau Ffestiniog.

Annwyl Olygydd,

Dyma fi yn anfon ychydig o
wybodaeth am Mrs Mary Jones
(sef Malan Jones), Pen-Lôn a
glywais gan fy chwaer, Mrs
Myfanwy Edwards, Bangor (mam
Reg y canwr) ar achlysur fy
ngenedigaeth ar Fai 5, 1917.

Bu raid iddi redeg o Pentai-
croesion Penisarwaun i fyny i Pen-
Lon i 'nol Malan Jones yn y nos at
fy mam, Kate E. Evans. Fe'm
ganwyd ar hanner nos a mawr y
disgwyl.

Dywedodd Malan Jones wrth fy
chwiorydd fod ganddynt frawd
bach a fi oedd y brawd bach. Yr
oeddynt wedi dweud allan fod
ganddynt frawd bach, ac felly
mae'n rhaid bod ei golwg yn
dechrau pallu amser hynny.

Yr eiddoch yn gywir,
Gladys Mary Jones (Mrs)

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwy**

BRYNREFAIL

ANRHYDEDD — yn rhestr anrhyddeddau'r flwyddyn newydd, anrhyddedwyd Mr Jack Baines, Warden Hafod Meurig, Brynrefail gyda Medal yr Ymerodraeth Brydeinig — BEM. Mae Mr Baines yn adnabyddus iawn ym myd dringo a mynydda, a bu'n arweinydd y gwasanaeth achub o orsaf llw awyr y Fali o 1975 hyd 1978, pan ymadawodd o'r llw awyr i gychwyn ei swydd newydd yn Hafod Meurig.

MARW — Y Diweddar Barchedig Gwilym Angell Jones — ychydig cyn y Nadolig fe frawychwyd yr ardal o glywed am farwolaeth Mr Angell Jones.

Bu Mr Jones yn weinidog ym Mrynrefail am gyfnod cyn ei ymddeoliad. Daeth yma o sir Fflint, a chyn hynny rhoddodd ef a'i briod ran helaeth o'u hoes yn gweinidogaethu a chenhadu yn yr India. Parhaodd Mr Jones yn ei wasanaeth i'r ardal ac yn wir, dim ond ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth fe weinyddodd Sacrament y Cymun yn y Capel.

Chwith yw meddwl fod Mr Jones a'i briod wedi ein gadael. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i fab a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

YMGYRCH I BATAGONIA — Mae Mr Tom Thomas, Isallt, Brynrefail, wedi ei ddewis yn un o chwech aelod (pedwar ohonynt o ardal yr Eco) sydd i dreulio dau fis ym Mhatagonia yn mynydda yn yr Andes. Trefnir yr ymgyrch dan nawdd BBC Cymru, gyda chymorth ychwanegol oddi wrth noddwyr lleol. Fe ddarlledir ffilmiau o'r ymgyrch o'r Wladfa ymhellach yn y flwyddyn. Dymunwn bob llwyddiant i'r ymgyrch; mae'r hogia yn hedfan o Gymru ar y 8ed o Chwefror ac edrychwn ymlaen am i Mr Thomas a'i gyd-deithwyr ddychwelyd adref yn ddiogel ymhen dau fis.

CLWB Y MAMAU — Cyfarfu nifer o aelodau yn Nhŷ Glas, nos Iau, Ionawr 22, a chafwyd arddangosfa ar fferru bwyd yn y cartref gan Mr Sointern o'r Bwrdd Trydan. Darparwyd y te gan Mrs Rhian Jones a Mrs Helen Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Jackie Jones, ac fe'i enillwyd gan Mrs Dorothy Jones o Gwm-y-glo.

DOSBARTH YMARFER CORFF — hysbysir fod y dosbarth yma wedi ailgychwyn ers nos Lun, Ionawr 15 ac fe barheir i gyfarfod yn wythnosol bob nos Lun am 8 o'r gloch.

GWAELEDD — Cipiwyd Mr John

Roberts, Bryn Awelon, i'r ysbyty yn ystod y gwyliau, ond da yw deall ei fod wedi gwella digon i gael dychwelyd adref dan ofal ei fab a'r teulu yn Llwyncoed Bach. Dymunwn lwyr iachad i Mr Roberts ac hefyd i Mrs Eifiona Jones, Bron Eryri sydd yn yr ysbyty a gobeithiwn i'w chroesawu hi adref cyn hir. Drwg hefyd oedd clywed am waeledd Mrs E.C. Williams, Llys Arfon ond da yw clywed ei bod yn mendio a dymunwn lwyr iachad buan iddi.

CLWB PEDWAR UGAIN — enillwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf: Tachwedd 24: 1) Carl Hasson, Bryn Myfyr; 2) J. Williams, Bryn Melyn; 3) Shirley Roberts, 1 Minffordd. Rhagfyr 1: 1) Sue Jones, Deiniolen; 2) Deryk Davies, Ceris; 3) Eriyls Williams, Marino. Rhagfyr 8: 1) Rhona Jones, Deiniolen; 2) Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian; 3) Mary Roberts, Penllyn. Rhagfyr 23: 1) Jackie Jones, 1 Tai Orwig; 2) Gwyn Mowl, Bryn Llwyd; 3) Pat Mowl, Bryn Llwyd. Rhagfyr 30: 1) Arthur Jones, 3 Tremaillan; 2) Megan Jones, Gaeur Villa; 3) John Smith, 1 Tai Orwig.

DALIER SYLW fod cyfarfod blynyddol y clwb i'w gynnal yn y Festri am 8 o'r gloch, nos Fercher, Ionawr 31. Taer erfynir am bresenoldeb helaeth o aelodau.

GENEDIGAETH — Llongyfarchiadau i Anne a Russell Willis, Llwyn Madog ar enedigaeth eu trydydd mab, James Richard, yn ysbyty Dewi Sant, Bangor ar Ionawr 16.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Ionawr 18: Cafwyd cyfarfyddiad o'r Sefydliad a daeth 14 o aelodau ynghyd. Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau. Darllenwyd llythyr y mis gan y llywydd. Cydymdeimlwyd a Mrs Gwyneth Jones ar golli ei brawd. Anfonwyd cerdyn a chofion o'r Sefydliad at Eifiona Jones sydd eto yn yr ysbyty. Pasiwyd i fynd i Gallt y Glyn ar Ionawr 26 am swper, a'r bws i adael am 7.15. Darllenwyd llythyr oddi wrth lywydd pwyllgor yr Eisteddfod yn diolch am y rhodd gan y Sefydliad.

Bydd y cyfarfod nesaf o dan ofal Pat Jones ar Chwefror 15. Rhoddwyd y te gan Mair Williams a Jennie A. Roberts a diolchwyd iddynt gan Carol Houston. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie A. Roberts ac fe'i enillwyd gan Mair Williams.

YN EISIAU

Tiwniwr dwy organ drydan, y naill yn Eglwys yr Annibynwyr

Cwm-y-glo, a'r llall yn eglwys Bathmaca (A) Glaninfryn

Ffon: Padarn 464

Eira Mawr Yn Lle?



Eira mawr ar un o ffyrdd prysuraf y fro tua'r flwyddyn 1906. Y cwestiwn yw — lle ydi o. Meddyliwch cyn troi i dudalen 15 am yr ateb.

NANT PERIS

YSBRYD Y NADOLIG — a gymhellodd ddwy o enethod y Nant i fynd o gwmpas i gasglu at gael cysuron Nadolig i'r henoed sydd ym Mhlas Pen Gwaith. Diolch yn fawr Rita a Jennifer am fod mor feddylgar, a chofio am rai llai ffodus na ni.

ELI BABI — oedd y pantomeim y bu'r plant yn ei weld yn Theatr Gwynedd ddechrau'r mis. Trefnwyd y cyfan gan Mrs Brenda Roberts, ysgrifenyddes Pwyllgor y Carnifal, a rhan o elw'r Carnifal oedd yn talu costau'r plant. Cafodd y plant a'r rhieni bnawn hapus a hwyliog. Diolch yn fawr Mrs Roberts am drefnu popeth ar eu cyfer.

LLONGYFARCHION — i Mr a Mrs Tom D. Griffith, 2 Bro Glyder ar achlysur eu priodas.

Dymunwn iddynt flynyddoedd o hapusrwydd yn y Nant.

Ein dymuniadau gorau a'n llongyfarchion i Mr Emyr S. Jones, Gwynant ar ei ddychafiad i'r swydd o Arolygydd yn ei waith yn Adran Iechyd yr Amgylchfyd. 'Roedd yn dechrau yn ei swydd newydd ar ddydd Calan yn Llundain. Credwn fod swm clychau yn y gwynt hefyd. Pob llwyddiant yn y dyfodol Emyr.

Mewn byd gwahanol, ein llongyfarchion i Mr Wil Aaron, Cwm Eilir Isaf ar ei waith yn cyfarwyddo ffilm yr Urdd ddangoswyd ar Deledu Harlech yn Cyfres 'Bywyd'. Awr a hanner o bleser gwirioneddol, gresyn na fuasai yn gynharach fel y gallai'r plant gael cyfle i'w gweld.

CYDYMDEIMLAD — Collodd tri theulu yn y Nant berthnasau agos yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yr oedd un ohonynt. Mr William Williams, Ty'n

Ffynnon gynt, wedi treulio ei oes bron i gyd yn y Nant, ac wedi cynrychioli yr ardal ar y Cyngor Plwyf a Chyngor Gwyrfa fel yr oeddynt yr adeg honno, a mawrygai y fraint yn fawr iawn, a gwasanaethodd yr ardal gydag ymroddiad llwyr yn ystod ei dymor. Cydymdeimlwn â Mrs Alice S. Jones, Gwynant (nith) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth, a hefyd â'r unig chwaer sydd yn byw yn y Bontnewydd.

Colli brawd fu hanes Mrs Betty Humphreys, Gwastadnant ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddodd Mr Bob Owen yntau wasanaeth clodwiw i Eglwys Padarn Sant gydol ei oes, a hefyd i Seindorf Arian Llanberis. Derbynned y teulu i gyd ein cydymdeimlad diffuant â hwy yn eu colled.

Ym marwolaeth 'Myfanwy o'r Bryn' collodd Mrs Jennie M. Williams fodryb. Adwaenid hi yn ei dydd fel cantores a ymddangosodd ar lwyfannau eisteddfodau a chyngherddau. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Williams a'r teulu i gyd.

AROGL PAENT — sydd yng Nghapel Rehoboth ar hyn o bryd. Bu rhai o'r aelodau yn brysyr yn ystod y ddau fis diwethaf yn addurno y capel o'r tu mewn. Diolch yn fawr i'r merched, y brodyr, ie, a'r plant, a fu wrthi mor ddiwyd yn gwneud y gwaith. Diolch hefyd i'r rhai a gyfrannodd yn ariannol at y gost, a bydd y swyddogion yn ddiolchgar iawn am bob rhodd eto at y costau. Hyderwn y bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn fuan ac y byddwn eto yn cyd-addoli yn y capel ar ôl treulio rhai Suliau yn y Festri. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at y gwaith.

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

R. Hughes Jones
a'r Mab

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus — prisiau rhesymol

10%

ODDI AR
BAPUR WAL a PHAENT LEYLAND
A JELLIPEX
yn

E. WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN
491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

LLANRUG

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — nos Fawrth, Ionawr 16, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol ar 'Y Gelfyddyd Gwta' gan y Parch. O.M. Lloyd, Caernarfon. Mwynhawyd ei ddull cartrefol o adrodd englynion gwahanol feirdd. Llywydd y noson oedd Mr T.W. Thomas a diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs J. Ll. Williams, Bod Fair, a'r Parch. W.O. Roberts, y ddau â chysylltiad â Stiniog, lle y magwyd y Parch. O.M. Lloyd.

DERBYN YN GYFLAWN AELODAU — Caed oedfa gofiadwy yn y Capel Mawr fore Sul cynta'r mis pryd y derbyniwyd deg o bobl ieuainc yr eglwys yn aelodau cyflawn a gweinyddwyd yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts gyda Mrs Eirlys Pierce wrth yr organ. Y bobl ieuainc a dderbyniwyd oedd Gwen Oliver Jones, Iola Cleo Jones, Carolyn Owen, Dylan Wyn Williams, Manon Prys Owen, Sharon Ann Davies, Gwyneth Jones, Gerald Wyn Griffith, Linda Roberts a Wendy Roberts. Traddododd y gweinidog anerchiad, gan estyn deheulaw cymdeithas yr eglwys i bob un o'r cyfeillion ieuainc a dymuno arnynt fendith yr Arglwydd.

COFIWCH Y NOSON HON — Ceir gwledd o Sosej, Sglodion a phaned, ynghyd ag adloniant gan blant yr ardal yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Chwefror 14. Yr elw at Gronfa Rigarug. Dewch yn llw!

MERCHED Y WAWR — Cyfarfu'r gangen yn y Sefydliad Coffa ar Ionawr 9 gyda Mrs Nansi Lovatt yn y gadair. Cafwyd arddangosiad trin gwallt gan Mr Derek Rees o Gaernarfon gyda Mrs Jean Roberts yn fodel. Diolchwyd iddo gan Mrs Nant Roberts ac am y te gan Mrs Inigo Jones. Gwnaed paratodau ar gyfer yr Eisteddfod a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ym mis Mawrth.

GWASANAETHAU'R NADOLIG — Y Rheithor a weinyddai yn holl wasanaethau'r Nadolig yn Eglwys Sant Mihangel. Daeth cynulleidfadau i Offeren Cynta'r Nadolig am hanner awr wedi un ar ddeg Noswyl y Nadolig ac yr oedd cynulleidfadau oedd da yng ngweddill gwasanaethau'r Wyl. Yr organydd yng ngwasanaeth nos Sul oedd Mr Bryngwyn Griffiths, Peniarwaun. Nos Calan bu gwasanaeth Naw Llith a Charol a chymerwyd rhan mewn darllen gan blant yr Ysgol Sul, eu hathrawon ac eraill o'r gynulleidfadau. Rhoes y band rai eitemau, ac 'roedd graen ar yr holl wasanaeth a arweiniwyd gan y Rheithor. Canwyd carolau gan rai o blant yr Ysgol Sul yn ystod y gwasanaeth.

PARTI UNDEB Y MAMAU — Mwynhaodd aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion eu Parti Nadolig ym Mhlas Tan Dinas. Er garwed y tywydd, daeth nifer dda i fwynhau'r wledd.

DIOLCH — Dymuna Mrs Ellen Williams, Plas Pen Gwaith (Bryn Awelon gynt) ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch hefyd i aelodau Capel Hermon am y blodau hardd, ac i'r Matron a Staff y cartref am eu gofal.

PARTI PLANT YSGOL SUL SANT MIHANGEL — Ar ddydd Calan cynhaliwyd y parti yn y Sefydliad Coffa. Yr oedd y trefniadau yn nwylo'r athrawon a buont yn ddiwyd yn paratoi'r wledd. Bu rhai o wragedd yr Eglwys yn cynorthwyo gyda'r gwaith hefyd. Rhannwyd rhoddion o felysion i'r plant ar ddiwedd y parti gan Miss A.C. Jones, Glanllyn. I gloi'r parti aed â'r plant, eu rhieni a'u cyfeillion i

Theatr Gwynedd i weld y pantomeim 'Eli Babi'. Bu llwyddiant mawr ar yr holl weithgareddau.

MARW — Mewn cartref i'r henoed ym Mae Trearddur, Ynys Môn, bu farw Miss F.M. Johnson, gynt o High Moor, Ceunant. Brodoreis o Birmingham oedd Miss Johnson ond wedi ymgartrefu yn y Ceunant ers llawer blwyddyn. Yr oedd yn aelod o Eglwys Sant Mihangel a'r Rheithor a weinyddai yn ei harwyl yn yr Amlogsgfa ym Mangor.

YN GWELLA — Deallwn fod Mrs Wyn Griffiths, Tan-y-Fron; Mrs S.M. Roberts, Meifod; a Mrs H.V. Pritchard, Snowdon View yn gwella'n foddhaol ar ôl cyfnod mewn ysbyty ym Mangor.

CYFARFOD GWEDDI — Nos Lun, Ionawr 8 yng Nghapel Mawr cafwyd cyfarfod gweddi dan nawdd y bobl ieuainc. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Parch. W.O. Roberts. Cyfeiliwyd gan Mrs Lovatt. Cymerwyd rhan gan Manon Owen, Carolyn Owen, Sharon Davies, Iola Cleo Jones, Mary Roberts, Gwen O. Jones, Richard Ellis Owen, Dylan W. Williams, Elidir Owen, Beryl W. Jones, Gerald Griffith, Cartrin Roberts, Myfanwy Jones, Wendy Roberts, Gwyneth Jones, Ann Jones, Ifan Roberts a Linda Roberts. Tystia pawb fod bendith arbennig ar y cyfarfod.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL (Capel Mawr) — Cynhaliwyd dau gyfarfod. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni'r Cwnstabl Elwyn Parry, Tregarth yn dweud hanes ei waith gyda diogelwch y ffyrdd yn yr ysgolion. Diolchwyd i Mr Parry gan y Parch. W.O. Roberts a Mrs J. Davies, Plas Gwyn. Llywyddwyd gan Mr J. Wyn Owen, Llain y Delyn. Yr oedd y cyfarfod arall yng ngofal Mr a Mrs Ifan Roberts, Ty Capel a Miss Myfanwy Jones, Gorwel. Mwynhaodd pawb noson hwyliog iawn. Diolchwyd iddynt gan y Parch. W.O. Roberts, Annedd Wen a Mrs Myfi Roberts. Llywyddwyd gan Mr Ifan Roberts.

Y GOBEITHLU (Capel Mawr) — Dechreuwyd y ddau gyfarfod trwy ddefosiwn gan Bethan Lewis Parry ac Anwen Parry, Ael-y-Bryn. Susan Jones Nant-y-Glyn a Nia Wyn Jones, Y Wern. Cymerwyd rhan mewn canu ac adrodd gan nifer fawr o blant a dysgwyd caneuon newydd iddynt gan Mrs Mair Jones, Ogwen, a hi hefyd oedd yn cyfeilio. Dangoswyd ffilm gan Mrs W.O. Roberts gyda Mr John Williams yn gofalu am y taflunydd. Diweddwyd trwy gyd-adrodd gweddi.

BRYSIWCH WELLA — Dymunir adferiad iechyd buan i Iola, merch fach Mr a Mrs Gareth Thomas, Lllys Eiddon, Mrs Doris Owen, 22 Bro Rhyddallt, Miss K. Jones, Bod Gynfi, Mr Griff Orittt, 50 Bro Rhyddallt a Mrs Pritchard Pen Sarn.

NEWYDDION Y SEINDORF — Bu'r Seindorf o dan arweiniad Mr Owen Jones, yn brysur iawn o gwmpas y Nadolig. Buont yn canu carolau o amgylch y Goeden Nadolig yng Nghaeathro, o amgylch y pentref gyda Merched y Wawr a Phwyllgor Rigarug, yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn cyn y Nadolig, yn Eglwys Sant Mihangel Nos Calan ac ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis. Gwerthfawrogir cymorth Miss Helena Parry, Bryn Heli pan ddaw adref ar wyliau.

Diolch am bob cyfraniad tuag at de parti'r plant. Daeth Siôn Corn i rannu ffrwythau a melysion iddynt. Da gweld Mr Merfyn Ll. Jones a Mrs Betty Roberts adref o'r ysbyty. Dymunir adferiad buan iddynt. Cydymdeimlir ag Arweinydd y Seindorf, Mr Owen Jones ar farwolaeth ei chwaer.

MARW — Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Iorwerth Williams, Bro Dawel. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLIR — â Mrs A.M. Hughes, Bwthyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yng Nghyffordd Llandudno. Hefyd Mrs Emrys Owen, 51 Bro Rhyddallt ar farwolaeth ei chwaer yn Abergele. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs G. Morris, 18 Glanmoelyn. Bu farw brawd Mrs Morris yng Ngwalchmai, Sir Fôn.

DALIER SYLW — Ni fydd cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â'r Ganolfan Cymdethasol nos Fercher, Chwefror 7. Ceir manylion pellach eto.

DIOLCH — i Mr Owen Jones am werthu *Eco'r Wyddfa* ym Mhont-rhythallt.

WALTER — Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Walter Evans, Dolwen, Ffordd yr Orsaf a fu farw ar Ionawr 23 yn 55 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn â'i wraig, Alice, ei blant, Alwen a Gwynnaf, Goronwy, ei frawd, a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Mae colli Walter o'n plith yn ergyd nid yn unig i'w deulu ond i'r llu ffrindiau a'r cydweithwyr a gafodd y fraint o'i adnabod dros y blynyddoedd.

Un â'i wreiddiau'n ddwfn yn y fro hon oedd Walter. Yr oedd ei bersonoliaeth hoffus, ei barodrwydd i wneud cymwynas a'i agwedd onest at fywyd fel petaent yn adlewyrchiad o nodweddion gorau'r gymdeithas a'i magodd. Credai y dylem helpu'n gilydd a chyfrannu i'n cymdeithas, ac fe wnaeth hynny drwy gydol ei oes mewn ffordd ddistaw a di-ffwdan. Rhoddodd o'i ddawn a'i lafur i'r henoed, i'r bobl ifanc ac i sawl cylch arall o'r gymdeithas leol. Bu ei gymwynas, ei gwmni difyr a'i chwerthin parod yn llawenydd i sawl un ohonom. Edrychwn ymlaen i'r dydd pan fydd y gwerthoedd yr oedd Walter Evans yn eu cynrychioli yn sail i'r math o gymdeithas yr oedd ef yn ffyddiog ei bod yn bosib i'r frawdoliaeth ei chreu.

CEUNANT

LLWYDDIANT CERDDOROL — llongyfarchiadau i Einir Parry, Morwel ar basio arholiad canu'r piano Graddfa 2. Ei hathrawes yw Mrs Roberta Griffith, Bod Elwy, Llanrug.

CYDYMDEIMLO — Drwg gennym gofnodi marwolaeth Mrs Williams, Tŷ Isaf, ar Ragfyr 29 ar ol cystudd maith. Llosgwyd ei gweddillion yn Amlogsgfa Bangor ar Ionawr 2. Cydymdeimlwn â Mr Williams a'r plant i gyd.

YN YR YSBYTY — Y mae Mrs Jennie Jones, Tŷ Uchaf yn Ysbyty Môn ac Arfon; dymunwn iddi adferiad llwyr a buan.

TAN-Y-COED

GWASANAETH NADOLIG — Rhagfyr 24 yn Nhan-y-Coed yn y prynhawn cafwyd Gwasanaeth Nadolig Plant yr Ysgol Sul. Calonogol oedd gweld y Ffestri yn llawn ar yr achlysur.

Perfformiwyd drama'r Geni gan y plant ieuengaf. Gwisgwyd hwy'n ddeniadol mewn dillad addas i'r cyfnod gan eu rhieni, ac mae'r Ysgol Sul yn ddiolchgar am gydweithrediad y rhieni.

Darllenwyd darlleniadau o'r Beibl, cysylltiol â Gŵyl y Geni gan y plant hŷn. Cymerodd pob oedran ran yn y canu carolau, a'r gynulleidfadau hithau yn ymuno yn y moli yn y canu cynulleidfadau.

Un rhan o'r gwasanaeth oedd darlleniad o Chwedl o Awstria gan Mrs Carys Lloyd Evans. Ar ddiwedd y chwedl hon cawsom ein hatgoffa o'n cyfrifoldeb ni heddiw i helpu trueiniaid y byd. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafwyd cyfle i gyfrannu tuag at Ysgol Pendalar (Adran Hŷn).

Y cyfeilyddion yn y gwasanaeth hwn oedd Mrs Beryl Mai Jones a Miss Eirian Morris.

Y wraig wadd oedd Mrs Nancy Roberts, priod y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts, na allai bresnoli oherwydd cyhoeddiad Sabothol.

YR WYTHNOS WEDDIAU — Nos Lun Ionawr 8 yng Nghapel Tan-y-Coed cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi, wedi ei drefnu gan y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs Megan Williams, Dwyfor, Miss Janice M. Roberts, Tai'r newyddion, Mrs Beryl M. Jones, 3 Tan-y-Coed; Mrs Carys Ll. Evans, Carwyn a Mrs Miriam Hughes, Rallt Deg.

Nos Fawrth traddodwyd pregeth gan y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts.

DERBYN YN GYFLAWN AELOD — Pnawn Sul, Ionawr 21 yng Nghapel Tan-y-coed derbyniwyd yn gyflawn aelod, un o blant yr eglwys, Enid Wynne, Llety Llwyd, merch Mr a Mrs Owen Edwin Wynne. Y Parch. W.O. Roberts oedd yn gwasanaethu. Wedi'r cyflwyno a'r derbyn, gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog.

Daeth cynulliad da ynghyd ar yr achlysur arbennig hwn.

DEWIS BLAENOR — Yn ddiweddar dewiswyd Mr Robert Griffith, Lllys Meredydd yn flaenor yng Nghapel yr Annibynwyr yn y Bryngwyn. Dymuniadau da'r ardal iddo yn y swydd.

CYDYMDEIMLWN — â Mr Gwilym Williams, Dwyfor yn ei phrofedigaeth sydyn ac annisgwyladwy — colli ei chwaer, Mrs Katie Harvey, Aigburth, Lerpwl. Bu Mrs Harvey farw Ionawr 13.

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



Dyddiadur y Mis

CHWEFROR 1, Iau: WAUNFAWR — Sefydliad y Merched — sgwrs gan Mr O.E. Evans. BETHEL — Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn yr ysgol am 7.45. CHWEFROR 2, Gwener: YR ARDAL — Clwb Eryri — sgwrs gan Miss Mat Pritchard. LLANBERIS — Te yr Henoed yn y Ganolfan. Bingo dan nawdd Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79 yn y Ganolfan am 7.30. CHWEFROR 5, Llun: LLANBERIS — Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. WAUNFAWR — Y Gymdeithas Lenyddol — noson o ffilmiau Mr Ieuan Owen. BRYNREFAIL — Dosbarth Ymarfer Corff am 8.00. CHWEFROR 6, Mawrth: LLANBERIS — Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn Ffestri Gorffwysfa am 8.00. BETWS GARMON — Noson o Gaws a Gwin yng Nghastell Cidwm. Yr elw at Gronfa 'Steddfod 1979. CHWEFROR 7, Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau; Y Gymdeithas Ddrama. LLANRUG — Disco dan nawdd y 'Majorettes' yn yr Ysgol Gynradd. Y Cyngor Eglwys — cyfarfod leuenctid yng Nghapel Pontrhythallt. CHWEFROR 8, Iau: LLANBERIS — Pwyllgor y Carnifal yn y Ganolfan am 7.30. CHWEFROR 9, LLANRUG — Disco dan nawdd Pwyllgor Cronfa Pwllmoelyn yn y Victoria, Llanberis. PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys

ATEBION I'R CWIS MAWR

ADRAN A

1. Lladd Llywelyn yr Ail ('Ein Llyw Olaf' fel y gelwir ef), a cholli annibyniaeth Cymru.
2. Owain Glyndŵr, Tywysog Cymru, yn cyhoeddi ei Senedd ym Machynlleth
3. Brwydr Bosworth. Harri Tudur, drwy drechu Richard III, yn dod yn frenin Lloegr (Harri VII)
4. Deddf Uno Cymru a Lloegr.
5. Sefydlu'r Swyddfa Gymreig, a chychwyn datganoli effeithiol i Gymru.

ADRAN B

6. Tua dwy filiwn a thri chwarter (2,750,000)
7. Tua thrigain miliwn (60,000,000)
8. 8% (o'i gymharu â 5.9% dros Brydain, a 4.1% yn ne-ddwyrain Lloegr)
9. £1,525 (£1,756 yn Lloegr)
10. 59

ADRAN C

11. 635
12. 36
13. Un pnawn
14. Yr holl Aelodau Seneddol Cymreig yn cyfarfod gyda'i gilydd, ryw dair neu bedair gwaith y flwyddyn, i drafod materion ac i holi gweinidogion. Nid oes ganddo ddim grym o gwbl.
15. Na ellir.

ADRAN CH

16. James Griffiths
17. Pump
18. Y cyfan
19. Dros fil o filiynau
20. Dim un

CHWEFROR 17, Llun: LLANBERIS — Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêldroed yn y Ganolfan am 7.30. BETHEL — Clwb y Rhos. BRYNREFAIL — Dosbarth Ymarfer Corff am 8.00. CHWEFROR 14, Mercher: LLANBERIS — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. BETHEL — Merched y Wawr. DEINIOL — Gyrfa Chwist dan nawdd Pwyllgor Apêl Gwaun Gynfi LLANRUG — Noson o Sosej, sgldion ac Adloniant dan nawdd Cronfa Rigarug yn yr Ysgol Gynradd CWM-Y-GLO — Gyrfa Chwist CHWEFROR 16, Iau: YR ARDAL — Eisteddfod Ysgol Brynrefail am 6.00. BETHEL — Sefydliad y Merched — sgwrs gan Mr Evan Hughes, Y Felinheli. BRYNREFAIL — Sefydliad y Merched — noson yng ngofal Mrs Pat Jones. BETHEL — Gyrfa Chwist yn yr ysgol am 7.30 — yr elw at Gronfa 'Steddfod '79. LLANBERIS — Y Gymdeithas Ddrama Disco dan nawdd y Clwb Pêldroed yn y Ganolfan. CHWEFROR 16, Gwener: LLANBERIS — Te bach yr Henoed. BETHEL — Clwb y Rhos yn gwledda yng Ngwesty'r Stables, Llanwnda. PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys. CHWEFROR 19, Llun: LLANBERIS — Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. BRYNREFAIL — Dosbarth Ymarfer Corff am 8.00. CHWEFROR 20, Mawrth: LLANRUG — Y Gymdeithas Undebol — "Term yn

ATEB I'R LLUN AR DUDALEN 13

Llun ydyw hwn a ymddangosodd yn *Cymru'r Plant* 1907 a yrrwyd i'r Eco gan deulu 'Bwthyn' Llanrug. Coeliwch ni neu beidio — y ffordd rhwng Cwm-y-glo a Llanberis ydyw. Adnabyddir y lle heddiw fel 'Tro'r Goat'.

ADRAN D

21. 80
22. Byddant
23. Na fydd, ac eithrio y bydd dau aelod dros bob etholaeth. 'Un dyn, un bleidlais' fydd hi yr un fath, h.y. dim Cynrychiolaeth Gyfrannol (Proportional Representation)
24. Na all
25. Na fydd, dim ond i weithredu deddfau wedi eu pasio gan Westminster
26. Bydd
27. Nid dan yr enw hwnnw. 'Arweinydd' y gelwir pen dyn y Cynulliad
28. Nid dan yr enw hwnnw. Ond fe fydd 'Pwyllgor Gweithredol'
29. Dim ond 1,100 (Cymharer a 100,000 — staff Llywodraeth Leol yng Nghymru ar hyn o bryd; neu 45,000 — staff y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru)
30. Addysg Gynradd, Tai, Llywodraeth Leol

ADRAN DD

31. Ddim o gwbl
32. Byddant
33. Fe ddaw'r arian mewn grant bloc a fydd yn cael ei ddyfarnu'n flynyddol gan Westminster. Yn ôl yr amcan diweddaraf, bydd y gost yn llai na cheiniog y pen i bob trethdalwr yn y Deyrnas.

ADRAN E

36. 57. Daeth i fod, fwy neu lai fel y mae yn awr, pan aeth De Iwerddon allan ohoni yn 1922
37. Y Frenhines Anne (1702-1714). Dechreuwyd arfer y term 'Prydain Fawr' pan unwyd seneddau'r Alban a Lloegr yn 1707
38. Am fod Deddf Uno 1536 yn dweud mai rhan o Loegr yw Cymru. Croes San Siôr (y groes goch sgwâr) sy'n cynrychioli Cymru.

Ôl" yng nghwmni Mr Emrys Owen. WAUNFAWR — Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Bargen' yn Neuadd yr Eglwys am 7 o'r gloch. Y noson dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin. CHWEFROR 21, Mercher: LLANBERIS — Clwb y Mamau. Y Gymdeithas Ddrama CWM-Y-GLO — Merched y Wawr. CHWEFROR 22, Iau — LLANBERIS — Sefydliad y Merched. CHWEFROR 23, Gwener: BETHEL — Pwyllgor y Carnifal yn y Neuadd. PENISARWAUN — Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys. CHWEFROR 26, Llun: LLANBERIS — Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêldroed yn y Ganolfan am 7.30. BRYNREFAIL — Dosbarth Ymarfer Corff am 8.00. CHWEFROR 27, Mawrth: LLANRUG — Y Gymdeithas Undebol yn dathlu Gwyl Ddewi. CHWEFROR 28, Mercher: LLANBERIS — Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama. BETHEL — Clwb y Mamau. CWM-Y-GLO — Gyrfa Chwist

DYDDIADAU I'W COFIO

MAWRTH 14: Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr, Bethel. MAWRTH 10: Cinio Gŵyl Ddewi Cangen Plaid Cymru, Llanberis. MAWRTH 15 ac 16: Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Twylllo Modryb Angelina'. MAWRTH 31: Cinio blynyddol Clwb y Rhos, Bethel.

39. Dywedir 'English Law' o hyd, er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfraith Lloegr a chyfraith yr Alban. Yr oedd yn rhan o gytundeb uno Lloegr a'r Alban (1707) fod y deddfau a basiwyd gan y ddwy senedd cyn hynny i ddal mewn grym.
40. 'Privy Councillor', neu aelod o'r 'Cyfrin Gyngor' — y corff sy'n cynghori'r Frenhines ar faterion y cyfansoddiad. Ar ôl datganoli, bydd rhan bwysig iawn i'r cyngor hwn i'w chwarae, oherwydd Pwyllgor Cyfreithiol y Cyfrin Gyngor sydd i gymodi lle bo unrhyw ddadl rhwng y Cynulliad Cymreig a Senedd Westminster

ADRAN F

41. Rhaid dweud 'cywir', mae'n debyg, gan fod Deddf Uno 1536 yn dal ar y Llyfr Statud. Hyd yn oed os yw gosodiad yn gywir mewn dim ond un ystyr, y mae'n gywir yr un fath.
42. Cywir. Y mae yna o leiaf dair. Felly mae'n rhaid bod yna un.
43. Anghywir. Yn fanwl, fanwl (medden' nhw), 'does yna ddim 'Dinesydd Prydeinig', dim ond 'Deiliad Prydeinig' ('British Subject'). 'Y Frenhines yn y Senedd', sy'n gyfrifol am deddfu ym Mhrydain: yn dechnegol felly, gwlad o 'ddeiliaid y Goron', nid gwlad o 'ddinasyddion' (fel Ffrainc, dyweder) yw Prydain.
44. Cywir. Mwy na hynny, oherwydd y "rheol 40%" fe fydd yn cyfrif fel pleidleisiwr yn erbyn os na phleidleisia o gwbl.
45. Cywir. 'Power devolved is power retained' yw'r egwyddor. Byddai gan Westminster yr hawl i ddiddymu'r Cynulliad Cymreig unrhyw adeg, petai'n dewis.

Sut hwyl gawsoch chi ar ateb?
Os cawsoch chi farciau llawn (50),

LLYTHYR AGORED GAN UNDEB MYFYRWYR COLEG AU BANGOR

Caffi Deiniol,
Ffordd Caergybi,
Bangor Uchaf.

Fel y mae'n hysbys, mae Undeb Myfyrwyr Colegau Bangor (UMCB) — Undeb sy'n cynrychioli nifer helaeth o fyfyrwyr Cymraeg Bangor — wedi bod yn ymgyrchu ers tro byd yn awr yn erbyn cynlluniau'r awdurdodau i ehangu Coleg Prifysgol Gogledd Cymru (CPGC) a dros adfer Cymreictod y Coleg ar y Bryn. Bu amrywiol weithgareddau yn y gorffennol yn gysylltiedig â'r ymgyrch hon ac fe ddewiswyd nifer bach o aelodau i'w cosbi gan Bwyllgor Disgyblu'r Coleg. Diarddelwyd tri aelod — Gwion Lynch, Iwan Rhys Edgar a Robin Chapman am wahanol gyfnodau o chwe mis i flwyddyn, fis Rhagfyr llynedd a gwrthodwyd eu hapêl ym mis Ionawr eleni. Ar Ionawr 20 diarddelwyd pedwar arall — Rhian Eleri Roberts, Cris Jones a Dewi Llywelyn — y tri am ddwy flynedd ac Ifan Roberts am ei oes. Mae'r cosbau hyn yn amlwg yn hollol annheg ac anghyfiawn ac yn nodweddiadol llwyr o agwedd y coleg yn dial ar nifer bach o fyfyrwyr yn lle wynebu canlyniadau cosbi pob un gymerodd ran yn yr ymgyrchoedd hyn.

Yn ogystal â hyn, mae 33 o aelodau a chefnogwyr UMCB yn wynebu achosion mewn llys barn am eu safiaid yn brwydro dros eu hiaith, eu diwylliant a'u cenedl. Ar Fawrth 6ed, bydd deg o bobl o'r tu allan i'r Coleg yn wynebu achos o lardata gwerth £2.50 o ddogfennau o gyfarfod Pwyllgor Disgyblu'r Coleg. Ar Fawrth 7ed, bydd 23 o aelodau a chefnogwyr UMCB yn wynebu achosion amrywiol o ddifrodi ac ymddwyn yn fygythiol. Fel y gall nifer o bobl a oedd yn bresennol dystio, 'roedd ymddygiad yr heddlu ar Ionawr 22 pan arestiwyd y 23 hyn yn hollol warthus ac anifeilaidd.

Apeliwn atoch chi Gymry, am gefnogaeth yn ein hymgyrch i Gymreigio'r Coleg ar y Bryn. Gallwch wneud hyn mewn dwy ffordd — trwy anfon llythyr at Brifathro'r Coleg, Syr Charles Evans, yn mynegi eich anafodlonrwydd at annhegwch cosbi'r aelodau hynny o UMCB. Anfonwch y llythyr at Swyddfa'r Undeb, Caffi Deiniol, Ffordd Caergybi, Bangor Uchaf, fel y gallwn eu trosglwyddo iddo.

Hefyd, erfyniwn am gyfraniadau i'r Gronfa Apêl a sefydlwyd i ofalu am gostau cyfreithiol y rhai hynny sy'n wynebu llys barn am eu safiad. Ceiniogau prin ein cyndeidiau a sicrhodd sefydlu Prifysgol y Werin. Gall eich ceiniogau chwi helpu i sicrhau cyfiawnder i'r rhai hynny sy'n barod i wneud safiad cadarn dros werin Gwynedd.

Sefwch gyda ni yn y bwllch
Fel y cedwir i'r oesoedd a ddêl y
glendid a fu'
Yn gywir,
Elin Wyn Roberts
ar ran UMCB

DIM CROESAIR

Oherwydd Cwis Mawr y Refferendwm ni fydd Croesair y mis hwn. Enillydd y Croesair Nadolig yw LINDA M. WILLIAMS, 8 CEFN CWELLYN, RHYD DDU. Llongyfarchiadau Linda mae'r wobwr ar ei ffordd.

'rydych chi'n gwybod pob peth. Hoffech chi broffwydo canlyniad y refferendwm?

40 marc: da iawn. Fe ddylech chi fod yn aelod o'r Cynulliad Cymreig.

30 marc: digon da wir.

O dan 30: hidiwch befo. Cofiwch fynd i fotio yr un fath.

CHWARAEON

Dr. R.H. Mills Roberts, MRCS, LRCP

Bu'r ymateb i gais Mr. Hugheston-Roberts yn Eco'r mis diwethaf am wybodaeth ynglyn a'r Dr. Mills Roberts yn chwim a diddorol. Fe gofiwch fod ambell gyfeiriad at y gŵr nodweddiadol hwn wedi ymddangos yn yr Eco yn ddiweddar, yn bennaf ar y dudalen ôl, yn rhinwedd ei swydd fel meddyg y chwarel a golgeidwad Llanberis.

Gwyddem ei fod â chysylltiadau â chlwb pêl-droed Preston North End, a chymerodd Mr. Huw R. Jones, Curadur Amgueddfa'r Chwarel, y dasg iddo'i hun o ysgrifennu atynt gan obeithio cael ychydig o'i hanes o'u safbwynt hwy.

Fe ddilyn gyfieithiad Mr. Jones o'r hyn a ymddangosodd yn y 'Football News and Athletics Journal' ar ddydd Sadwrn, Mawrth 24, 1888, diwrnod chwarae'r gêm derfynol am Gwpan Lloegr rhwng 'Preston North End a West Bromwich Albion yn Kennington.

DR. R.H. MILLS ROBERTS — I'r bonheddwr yma y mae gôl Preston North End wedi ei ymddiried y prynhawn yma, yn y gêm am gwpan Lloegr. Fel gôl-geidwad mae yn ddi-guro ac ni fu tîm Preston North End mewn dwylo mwy diogel erioed.

Wedi ei eni ym Mhenmachno, gogledd Cymru yn 1863, mae yn 5'8½" o daldra ac yn pwysu 11 stôn. Cafodd ei ysgoloriaeth yn ysgol y Friars Bangor ac yr oedd yn gapten y tîm pêl-droed yno; o Fangor fe aeth i gogledd y Brifysgol yn Aberystwyth. Yno fe ddaeth mwy o anrhydeddau i'w ran; bu yn chwarae i Aberystwyth am gwpan Cymru 1879, 1880, 1881.

Yn y flwyddyn 1882 gadawodd Gymru i Lundain ac astudio meddygaeth yn Ysbyty St. Thomas. Bu yno hyd y flwyddyn 1887, pan gafodd y llythrennau a ganlyn yng nghlwm wrth ei enw MRCS, LRCP. Tra yn St. Thomas yr oedd yn ystrifennydd y clwb pêl-droed ac yr oedd hefyd yn chwaraewr rugby. Nid oedd ei weithgareddau wedi eu cyfyngu i'w ysbytai ei hun, yr oedd hefyd yn ysgrifennydd ac yn gapten o gymdeithas unedig yr ysbytai yn Llundain. Yn 1883 bu yn chwarae i Middlesex ond wedi colli ei hawl blwyfol bu yn chwarae i Surrey a thra ar ben yr ysgol bu yn is-gapten a chapten i'r tîm hwnnw. Yn y cyfnod 1884-1887 yr oedd yn cymryd rhan yn y mwyafrif o glybiau Llundain ac hefyd yn helpu allan y *Crusaders* — *Brentwood* yng nghwpan Lloegr ac yn ystod y ddau dymor yn dilyn i'r *Casuals* pan enillodd y tîm hwn gwpan Llundain.



Y Dr. R. H. Mills Roberts

Chwaraeodd am y tro cyntaf i Gymru yn erbyn Lloegr yn *Blackburn* 1885 a gorffennodd y gêm yn gyfartal ac fel y dywedodd un awdurdod swyddogol mai uchafbwynt y prynhawn oedd chwarae Mills Roberts yn y gôl. Ar ôl hyn yr oedd yn gôl-geidwad yn rhan fwyaf o gemau rhyngwladol dros Gymru yn rhannu'r anrhydedd â trainer gôl-geidwad arall *Preston North End*. Yr oedd weithiau yn chwarae yn erbyn *P.N.E.* i dîm dewisiedig *Mr Jackson y Corinthians* yn dathlu y *Jubilee* yn y flwyddyn 1887 Penodwyd ef yn llaw-feddyg i ysbyty

y *Birmingham General* a thra yn Birmingham bu yn chwarae â *Warwick County* a *Mitchells St. George*, ac yn gôl-geidwad i Birmingham yn erbyn *Sheffield United* pan gafodd yr olaf gurfa fythgofiadwy.

Pan ofynnwyd iddo chwarae yng nghwpan Lloegr, mae er hynny wedi bod yn aelod o glwb *P.N.E.* a hefyd yr oedd gofyn am ei wasanaeth gan *Barnes*, *Crusaders* a *Corinthian Casuals*.

Fel gôl-geidwad y mae yn bwylllog ac yn sydyn bob amser yn effro ac yn ymadael â'r bêl yn fuan, ac anaml iawn yn gwneud camgymeriad. Gôl-geidwad gorau y dydd.

Dyna ni, Mr. Hugheston-Roberts, golgeidwad gorau'r dydd oedd eich perthynas. 'Rwy'n siŵr y bydd llythyr Mr. Parry o ddiddordeb i chwi hefyd, sy'n dyst ychwanegol o'i allu fel meddyg.

8 Stryd Turner, Llanberis.

Annwyl Olygydd,

Parthed eich llythyr ynglŷn â'r diweddar Dr. Mills Roberts yn rhifyn yr Eco mis Ionawr '79.

Adwaenwn Dr. Mills yn dda gan iddo gyflawni llawfyddigaeth o dorri coes fy mam uwchben y penglin, a hynny ar ôl i feddygon yn ysbytai Lerpwl wrthod gwneud, gan eu bod yn ofni y buasai triniaeth o'r fath yn ddigon am ei bywyd yn ei hoedran.

'Roeddem yn byw yr amser hynny yn 9 Rhes Fictoria, ac 'roedd fy nhad a Dr. Mills yn gyfeillion, ac addawodd y buasai yn cyflawni'r llaw-feddygaeth.

Bore'r driniaeth, gorchmynodd Dr Mills i wellt gael ei daenu ar hyd y stryd o Westy'r Fictoria hyd at geg y llwybr sy'n arwain i'r Wyddfa, rhag bod dim sŵn na stŵr yn amharu dim ar y driniaeth. Gorchmynodd hefyd nad oedd trol a cheffyl i deithio yn y stryd y diwrnod hwnnw.

Cafodd Dr. Mills glod mawr gan y 'Lancet', y papur meddygol enwog hwnnw ar ôl y weithred uchod ac mae'n siŵr fod copl o hwn ar gael heddiw pe bai rhywun yn gwneud ymholiadau. Credaf mai'r flwyddyn 1910 ydoedd ond ni allaf fod yn siŵr.

Cof arall o'r meddyg sydd gennyf yw pan oeddwn yn saer coed efo John Owen Saer, ac wedi bod yn rhoi corff mewn arch un nos Sadwrn yn hwyr. Fel y cerddwn adref drwy'r pentref gwelwn hen wreigan a oedd yn adnabyddus am ddiota. Gorwedda i swp yn ei diod ar ochr y ffordd, ac euthum â hi i'r Grosvenor at y meddyg, a chymerodd yntau hi i'r tŷ. Yna euthum ymlaen at fy nghartref.

Pan oeddwn wrthi'n tynnu 'nghôt ac yn adrodd yr hanes wrth fy nhad, fe glywsom sŵn clocciau yr hen wreigan yn mynd heibio'r tŷ acw am ei chartref. 'Roedd yn amlwg fod yr hen ddoctor wedi rhoi meddyginiaeth sydyn iddi er mwyn iddi ddod ati ei hun.

Wedi i Dr. Mills ddod i Lanberis, fe drefnodd 'charity match' rhwng Llanberis a thîm o Loegr ('rwy'n credu mai Ogden oedd enw'r tîm).

Chwaraeai'r meddyg yn y gôl i

Llanberis. Cyn y gêm, ac yntau yn ôl ei arfer wedi rhwymo ei freichiau a'i goesau mewn 'bandages', rhoddwyd gwahoddiad i'r bobl leol gynnig cic at y gôl, ac nid aeth yr un bêl drwodd.

Canlyniad y gêm honno, os yw fy nghof yn iawn, oedd 1-0 i Lanberis.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn rhywfaint o werth i'ch gohebydd Mr E.M. Hugheston Roberts.

*Yn gywir iawn,
T. George Parry (saer).*

'Sgwn i, Mr. Hugheston-Roberts, a dderbynioch chwi rywfaint o wybodaeth yn uniongyrchol o ganlyniad i'ch llythyr? Os do, carem fel golygyddion a darllenwyr yr Eco wybod gymaint ag sydd bosib' am y gŵr hynod hwn. Gadewch i ni wybod!



Tîm Llanberis 1911-1912, yn cynnwys y Dr. Mills Roberts. O'r chwith i'r dde yn sefyll: Robert J. Williams; Hugh Hughes; Robert Thomas; Bob Ll. Hughes; Tom Owen; Dr. Mills Roberts; David Pritchard; Evan R. Owen; Brymer Roberts; Joe Parry; J.G. Davies; Peter Jones a W. H. Jones. Yn eistedd: Hugh Lloyd; George B(?); Myrddin Jones; W.R. Thomas; Hugh Parry. Ar y llawr: Dick Davies; Latta Jones; Llew Williams; Evan Ll. Hughes a W.R. Thomas.

PÊL-DROED MIS IONAWR

LLANRUG 2 — LLANBERIS 0

Na, nid canlyniad gêm yw hwn ond yn hytrach canlyniad effaith y tywydd ar ein timau pêl-droed. Nid yw tîm Llanberis wedi chwarae ers Rhagfyr 16, a'r Sadwrn diwethaf, methwyd ag ail chwarae'r gêm Gwpan yn erbyn Sunblest am y trydydd neu'r pedwerydd tro. Bydd fel dechrau tymor eto iddynt pan ganiateir iddynt chwarae gan y rhew a'r eira. Gobeithiwn na fydd hyn yn golygu cyfnod o ailgynhesu, ac efallai colli gemau y byddent wedi eu hennill yng nghwrs arferol pethau.

Ni bu pethau fawr gwell ar Lanrug; dwy gêm yn unig yn ystod y mis, a gellir rhag-weld eisoes y bydd diwedd y tymor yn gyfnod hynod o brysur i holl dimau'r gynghrair.

Rhagfyr 30

Mt. Rangers 1 — Llanrug 2

Gêm galed iawn i Lanrug yn erbyn tim o'r Rangers sydd wedi gwella'n arw ers dechrau'r tymor. Cael a chael i ennill gyda gôl yr un gan Vernon Lloyd a Peter Roberts.

Ionawr 20

Llanrug 6 — Hiracl 1

Gêm wedi ei threfnu ar y funud olaf gan fod Halkyn o Gynghrair Clwyd wedi methu teithio oherwydd yr eira.

Gêm reit gyfartal yn yr hanner cyntaf, ond Llanrug yn ennill yn braf yn yr ail hanner gyda gôls gan Vernon Lloyd (3), Hefin Jones (2) a Peter Roberts (1). Y gêm hon yn rhoi Llanrug 6 phwynt ar y blaen ar ben y Gynghrair.

	CH	E	Cyf	Colli	O Bl.	Yn erbyn	Pwyntiau
LLANRUG	17	15	1	1	71	20	31
LLANBERIS	15	12	1	2	52	15	25